Y CYNGOR DINAS A SIR CAERDYDD SIR

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Iau, 23 Mawrth 2017 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Gwener, 17 Mawrth 2017.

Yn bresennol: Y Cynghorydd Sir Walsh (Arglwydd Faer)

Cynghorwyr Sir Ahmed, Manzoor Ahmed, Dilwar Ali, Bale, Bowden, Boyle, Bradbury, Bridges, Carter, Chaundy, Clark, Ralph Cook, Richard Cook, Cowan, Kirsty Davies-Warner, Chris Davis, De'Ath, Derbyshire, Elsmore, Evans, Ford, Goddard, Goodway, Gordon, Graham, Groves, Gavin Hill-John, Hinchey, Holden, Howells, Hudson, Hunt, Hyde, Keith Jones, Joyce, Kelloway, Knight, Lent, Lloyd, Magill, McGarry, McKerlich, Merry, Michael, Mitchell, Murphy, Jackie Parry, Patel, Phillips, Rea, David Rees, Dianne Rees, Robson, Sanders, Simmons, Stubbs, Ben Thomas, Graham Thomas, Huw Thomas, Lynda Thorne, Walker, Weaver, Wild, Darren Williams a/ac Woodman

150 : MUNUD O DAWELWCH

Cymerodd yr Arglwydd Faer a’r Cynghorwyr ran mewn munud o dawelwch i barchu’r rhai hynny fy farw yn y digwyddiadau ofnadwy yn San Steffan ar 22 Mawrth 2017 a'r rhai hynny a effeithiwyd arnynt ganddynt yn uniongyrchol.

*(Munud o Dawelwch)*

Cyn dechrau’r cyfarfod yn ffurfiol, diolchodd yr Arglwydd Faer i’r Cynghorydd Eleanor Sanders am drefnu casgliad ar gyfer Apêl Argyfwng Bwyd Dwyrain Affrica.

151 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Aubrey, Burfoot, GOvier, Joyce, Kelloway a Marshall.

152 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganwyd y buddiannau canlynol: -

| Cynghorydd | Eitem | Buddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Groves | Eitem 9 Asesiad Anghenion y Boblogaeth<br>Eitem 12 (4) Datganiadau | Buddiant Personol |
| Y Cynghorydd Hudson | Eitem 9 Asesiad Anghenion y Boblogaeth<br>Eitem 12 (4) Datganiadau | Buddiant Personol |

Hefyd dywedodd yr Arglwydd Faer fod gan Cyfarwyddwyr wedi eu heffeithio gan y Polisi Tâl (Eitem 10) fuddiant ariannol a byddant yn gadael y cyfarfod tra bod yr eitem hon yn cael ei hystyried.

153 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2017 fel cofnod cywir ac fe'u llofnodwyd.

154 : DEISEBAU

Cyflwynwyd y deisebau canlynol: -

Y Cynghorydd Lent – 37 llofnod yn gofyn am fwy o fannau parcio i breswylwyr yn Shirley Road.
Y Cynghorydd Hunt – 50 llofnod yn deisebu'r Cyngor i gyflwyno cyfyngiadau parcio yn Ashbourn Way, Llanisien.
Y Cynghorydd Hunt – 80 llofnod yn gofyn am groesfan newydd i gerddwyr yn Excalibur Drive
Y Cynghorydd Hunt – 111 llofnod yn galw ar Fws Caerdydd i wella Bws 28A
Y Cynghorydd Keith Jones – 69 llofnod yn deisebu'r Cyngor i roi cladin ar dain yng Nghoed y Gores i'w gwneud yn dwym ac yn effeithlon o ran ynni.
Y Cynghorydd Robson – 114 llofnod gan berchenogion a chwsmeriaid Gateway of India yn gwrthwynebu cais cynllunio ar gyfer adeiladu Nat West Bank yn Rhiwbeina
Y Cynghorydd Paul Mitchell – 373 yn deisebu'r Cyngor i osod croesfan i gerddwyr yn Heol Sain Ffagan y tu allan i Ysgol Gynradd Y Tyllgoed.

155 : CWESTIYNAU CYHOEDDUS

Cwestiwn gan y cyhoedd: *Mr Peter Hudson*

A yw Canolfan Ailgylchu Gwastraff Heol Wedal wedi'i gwerthu neu a yw'r manylion eisoes wedi'u hanfon at asiant tai?

Ymateb: *Y Cynghorydd Hinchey*

Nid yw'r safle wedi'i werthu ac mae dal i fod ar agor ac yn llawn weithredol.

Yn rhan o'n gwaith rheolaidd o adolygu ein hasedau, ac yn unol â'n Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol, rydym yn diweddaru gwerthoedd yr adeiladau a'r safleoedd, gan gynnwys gwerthusiadau annibynnol allanol.

Cwestiwn atodol: *Mr Peter Hudson*

A oes unrhyw drafodaethau wedi bod i osod canolfan adsefydlu a chamddefnydd cyffuriau ac alcohol neu ganolfan debyg ar y safle hwn?

Ymateb: *Y Cynghorydd Hinchey*

Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw drafodaethau o'r fath, ond byddaf yn bendant yn ymchwilio i hyn ac yn rhoi ateb i chi yn ysgrifenedig.

Cwestiwn gan y cyhoedd: *Mr Joel Williams*

Y Cynghorydd Patel, fel yr Aelod Cabinet dros Drafnidiaeth, Cynllunio a Chynaliadwyedd, mae cymeradwyo'r Cynllun Datblygu Lleol yn ddiweddar yn dangos y canlynol:

Absenoldeb llain las sydd felly'n peryglu datblygu llawer mwy o safleoedd maes glas yn y dyfodol na'r nifer sydd eisoes wedi'i nodi yn y cynllun datblygu lleol.

Gyda diffyg ffyrdd a seilwaith ar waith, bydd datblygu 40,000 o anheddau ledled y Ddinas yn arwain at dagfeydd ofnadwy a'n goleuadau traffig yn aros yn goch am hirach.

Ac yn olaf, mae parcio yn fy ardal i (Pontprennau a Phentref Llaneirwg) eisoes ar lefel ofnadwy a gwrthgymdeithasol sy'n achosi tagfeydd gyda phreswylwyr lleol yn aml yn wynebu oedi hir wrth ddod allan o'u cartrefi eu hunain a symud i brif ffyrdd. Cyflwynwyd deiseb ddiweddar gennyf fi fy hunan a fy nghyd-weithiwr y Cyng Dianne Rees nad ydych chi wedi gwneud dim o ei rhan i helpu'r broblem gronig sy'n gwaethygu. Bydd datblygu mwy na 6,000 o anheddau bob ochr o Bontprennau ond yn gwneud y broblem hon yn waeth.

Felly, mae'n siŵr mai cynllun diwygiedig – sy'n amddiffyn safleoedd maes glas a rhoi barn preswylwyr lleol yn gyntaf a datrys y problemau parcio ofnadwy – yw'r dull iawn ar gyfer ein Dinas?

Ymateb: *Y Cynghorydd Patel*

Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ryw 14 mis yn ôl ac mae'n adlewyrchu proses baratoi pum mlynedd, gan gynnwys mwy na flwyddyn o archwilio annibynnol. Ystyriwyd yr holl faterion rydych yn eu codi mewn perthynas â Llain Las, ffyrdd, seilwaith a pharcio yn rhan o'r broses hon ac aethpwyd i'r afael â nhw yn adroddiad yr Arolygydd annibynnol.

Nid oes rheswm ar hyn o bryd i newid y Cynllun wedi'i fabwysiadu'n ddiweddar, yn enwedig cyn unrhyw ganfyddiadau monitro ffurfiol.

Rwy'n falch bod y Cynllun mabwysiedig yn darparu fframwaith statudol i reoli'r ddarpariaeth tai a swyddi y mae ei hangen ar y ddinas, ond mewn ffordd a reoli sydd hefyd yn darparu gwaith seilwaith angenrheidiol yn raddol a'r gwaith o ddyrannu Lletem Las a pholisi ffiniau anheddiad tynn i amddiffyn ardaloedd mawr o'r cefn gwlad.

Mae'r lletem las, sy'n cynnwys yr ardaloedd helaeth a mawr sy'n ffurfio ardal las Caerdydd i'r gogledd o'r M4, yn cynnig amddiffyniad cryf yn erbyn datblygu maes glas yn y dyfodol yn yr ardal hon yn ystod cyfnod y cynllun.

Cwestiwn atodol: *Mr Joel Williams*

Rydym yn mynd i adeiladu 7000 o gartref ar ddwy ochr Pontprennau ac mae'n ffaith syml nad yw'r rhwydwaith ffordd a seilwaith yn ein dinas ar waith ac mae angen i ni

gydweithio i leihau'r Cynllun Datblygu Lleol trychinebus sydd wedi'i gyflwyno gan eich plaid chi. Ac, felly, fy nghwestiwn ategol, yr Arglwydd Faer, yw:

Y Cynghorydd Patel, allech chi enwi un prif ffordd ac un trefniant seilwaith y mae arian wedi'i neilltuo er mwyn eu gwella yng ngogledd y ddinas yn ward Pontprennau a Pentref Llaneirwg, lle mae parcio eisoes ar lefelau gwrthgymdeithasol trychinebus? Allech chi enwi un gwelliant fydd yn digwydd o ganlyniad uniongyrchol i'r Cynllun Datblygu Lleol? Diolch.

Ymateb: *Y Cynghorydd Patel*

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn glir iawn. Y weinyddiaeth flaenorol a fethodd lunio cynllun, a alluogodd pawb i adeiladu eiddo fel y mynnont.

Felly, gadewch i mi wneud hyn yn gwbl glir – bydd y CDLL yn amddiffyn yr holl fathau o bethau hynny rydych yn sôn amdanynt. Amddiffynnir y seilwaith gan y bydd cytundebau Adran 106 clir a llawer o gytundebau eraill, y bydd yr adran gynllunio yn delio â nhw.

Er enghraifft, St Edyrn – sefydlwyd tua £33m o gytundebau Adran 106 a chytundebau eraill er mwyn galluogi'r holl seilwaith hwnnw; llwybrau bws newydd, pàs teithio ar fws am ddim am gyfnod, ac ati. Mae'r holl bethau hynny'n digwydd trwy CDLL.

Fel y esboniais i chi yn y gorffennol, rhaid i chi ddechrau astudio'r CDLL yn iawn cyn i chi ofyn y cwestiynau dwl hyn.

Cwestiwn gan y cyhoedd: *Mr Frank Jacobsen*

Pa ddarpariaeth sydd gan y Cyngor ar gyfer gosod rhandiroedd yn Ward Llanedern – Pentwyn?

Ymateb: *Y Cynghorydd Derbyshire*

Nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i osod rhandiroedd newydd yn y ward dan sylw. Fodd bynnag, rwy'n ymwybodol bod yr Aelod Seneddol dros Gaerdydd Ganolog wedi bod yn ystyried gyda Swyddogion yr hyn y gellir ei wneud ac, o ystyried y diddordeb sydd wedi'i fynegi, rwy'n ystyried yr holl gyfleoedd gyda Swyddogion ar gyfer y dyfodol.

Cwestiwn atodol: *Mr Frank Jacobsen*

Rwy'n ffodus i allu gyrru i fy rhandir i weithio arno'n ddyddiol. Mae gennyf nifer o breswylwyr anabl a hen yn ardal Llanedern a Phentwyn sy'n aros yn eiddgar am randiroedd yn eu hardal.

Fyddech chi cystal â dod nôl ataf i gydag ymateb cynnar, os gwelwch?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Derbyshire*

Y broblem bod gennym gynnydd mawr o ran nifer y bobl sydd am ddefnyddio rhandiroedd, sy'n newyddion da ac yn gadarnhaol iawn.

Rwy'n gwybod bod fy nghyd-weithiwr ar yr ochr arall, sydd wedi bod ein hyrwyddwr rhandir ni, wedi bod yn gweithio'n galed iawn ynghyd â Swyddogion i drio gwella pethau.

Rydym wedi gwneud sawl newid ac rydym yn trio cael safleoedd newydd, gan gynnwys gogledd Pontprennau a wardiau Llys-Faen cymdogol, dwyrain Llanedern, sy'n agos, a'r hyn rydym yn trio ei wneud yn awr yw dod o hyd i le ym mhob ward lle bo cyfle.

Rwy'n fwy na hapus i bobl roi awgrymiadau i mi – os mai fy yw e yn y dyfodol – am safleoedd posibl ar gyfer rhandiroedd. Rwy bob amser yn hapus i ystyried y rheiny gan ei bod yn beth gwych i'w wneud.

## 156 : CYHOEDDIADAU'R ARGLWYDD FAER

Cydnabyddiaeth a Gwobrau - derbyniwyd manylion am y gydnabyddiaeth a'r gwobrau a dderbyniwyd dros y mis diwethaf a bu i'r Arglwydd Faer longyfarch y timau ar eu llwyddiannau.

Roedd £77,882 wedi'i godi at Elusen yr Arglwydd Faer. Roedd yr elusen wedi derbyn £1,737.50 o arian nawdd gan ras Dydd Gŵyl Dewi ym Mharc Bute.

Roedd y digwyddiadau canlynol wedi eu trefnu ar gyfer Elusen yr Arglwydd Faer: -

24 Mawrth - Cinio Elusennol yn y Plasty.
4 Mai – Digwyddiad brecwast yn y Caffi Gwyddoniaeth yn y Plasty.
13 – 21 Mai – Mae'r Cynghorydd Dilwar Ali a Mohammed Abdul Salam yn gwneud taith Cerdded ar Hyd Wal Tsieina.
14 Mai - Ras Cwch y Ddraig Caerdydd.

## 157 : PANEL DYFARNU CYMRU – HYSBYSIAD O BENDERFYNIAD

Derbyniodd y Cyngor benderfyniad Panel Dyfarnu Cymru, 3 Mawrth 2017 mewn perthynas â chwyn yn erbyn y Cynghorydd McEvoy.

Nododd y Cyngor fod y Cynghorydd McEvoy wedi'i wahardd dros dro o'i swydd fel Cynghorydd am fis o 3 Mawrth 2017 tan 2 Ebrill 2017 gan gynnwys y dyddiadau hynny.

## 158 : CYNGOR DINAS CAERDYDD CAERDYDD DDWYIEITHOG: STRATEGAETH 5 MLYNEDD YR IAITH GYMRAEG 2017-2022

Derbyniodd y Cyngor Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2017-2022 i'w chymeradwyo yn unol â Rheoliadau Safonau'r iaith Gymraeg (rhif 1) 2015 a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.

Cynigiwyd y Strategaeth gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Bale a'i heiliwyd gan y Cynghorydd Huw Thomas fel Cadeirydd Grŵp Aelodau Caerdydd Ddwyieithog.

Roedd angen i’r Cyngor lunio a chyhoeddi ar ei wefan strategaeth pum mlynedd sy'n nodi sut mae'n cynnig hyrwyddo'r Gymraeg ac i hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn fwy eang yn y Sir; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymhlith materion eraill) (a) targed (o ran canran y siaradwyr yn yr ardal) i gynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal erbyn diwedd y cyfnod pum mlynedd dan sylw, a (b) datganiad sy’n nodi sut mae’n bwriadu bwrw’r targed hwnnw. Rhaid i’r Strategaeth gael ei adolygu, ai ddiwygio a’i chyhoeddi ar y wefan o fewn pum mlynedd o gyhoeddi'r strategaeth (neu o gyhoeddi'r strategaeth ddiwygiedig).

I gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae angen i’r Cyngor bennu targedau ar sail data Cyfrifiad 2011. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Caerdydd yn elfen bwysig gan ei fod yn nodi’r cyfeiriad strategol ar gyfer cynllunio a darparu addysg iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg yn yr awdurdod.

Dywedwyd wrth y Cyngor am y gweithdai cyn ymgynghoriad gyda phartneriaid a’r gwaith wedi’i wneud gan Grŵp Aelodau Caerdydd Ddwyieithog a’r Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad i lywio’r strategaeth a bod 250 o ymatebion wedi'u derbyn a'u hystyried. Gan mai strategaeth ar gyfer y ddinas gyfan ac nid i unrhyw un sefydliad yw hon, bydd cyflawni’r strategaeth yn dibynnu ar waith partneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat ac addysg. Mae’r holl bartneriaid wedi’u rhestru yn y strategaeth hon wedi cytuno i weithredu a monitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu perthnasol yn y cynllun gweithredu.

Agorodd yr Arglwydd Faer ddadl ar yr eitem hon a chodwyd y materion canlynol: -

- Cynlluniau i’r dyfodol ar gyfer addysg Gymraeg yng Nghaerdydd.
- Cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc i ddefnyddio’r iaith yn gymdeithasol y tu allan i amgylchedd yr ysgol;
- Cynnal yr Eisteddfod yng Nghaerdydd a chyfleoedd i gynnwys cymunedau Caerdydd yn yr ŵyl hon;
- Materion ynghylch defnyddio caeau Pontcanna yn rhan o ddigwyddiadau/gwyliau megis yr Eisteddfod a colli amwynderau lleol am gyfnodau sylweddol o amser;
- Pwysigrwydd datblygu’r strategaeth gyda phartneriaid;
- Goblygiadau ariannol i’r Cyngor wrth cydymffurfio â holl Safonau’r Gymraeg.
- Sefyllfa ac ymarferoldeb cyfredol yr Hen Lyfrgell.

Ymatebodd yr Arweinydd i’r materion a godwyd.

PENDERFYNWYD –

1. cymeradwyo Strategaeth Gymraeg 5 Mlynedd Caerdydd Ddwyieithog 2017-2022
   I’w mabwysiadu.

2. bod craffu ar Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog yn cael ei gynnwys yn benodol yn y cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Craffu sy’n ymdrin â pholisïau a phartneriaethau.

## 159 : ASESIAD ANGHENION POBLOGAETH CAERDYDD A BRO MORGANNWG

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf GCLL) yn gofyn i awdurdodau lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol o fewn pob rhanbarth i baratoi a chyhoeddi cyn Ebrill 2017 asesiad ar y cyd o anghenion gofal a chymorth y boblogaeth, gan gynnwys gofalwyr sydd angen cymorth.

Cynigiodd yr Aelod Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol adroddiad yr asesiad ac eiliwyd hyn gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Plant.

Mae'r Asesiad Anghenion y Boblogaeth yn sicrhau bod Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn creu ar y cyd asesiad clir a phenodol ar sail tystiolaeth o'r anghenion gofal a chymorth ac anghenion gofalwyr i danseilio sut mae swyddogaethau statudol yn cael eu cyflawni a llywio cynllunio a phenderfyniadau gweithredol. Bydd hyn yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u datblygu mewn ffordd effeithlon ac effeithiol gan bartneriaid sector cyhoeddus, er mwyn hyrwyddo llesiant pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth.

Bwriad Asesiad Anghenion y Boblogaeth yw ysgogi newid, yn rhannol trwy alluogi awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i ganolbwyntio at agweddau ataliol at anghenion gofal a chymorth. Bydd yn rhoi gwybodaeth y mae ei hangen i gefnogi penderfyniadau ar adnoddau a'r gyllideb; gan sicrhau bod gwasanaethau a chanlyniadau'n cael eu targedu, yn gynaliadwy, yn effeithiol ac yn effeithlon. Bydd yn tanseilio'r gwaith o integreiddio gwasanaethau ac yn benodol cefnogi'r dyletswyddau a nodir yn Rhan 9 y Ddeddf sy'n delio gyda gwaith ar y cyd.

Ar ôl ei gwblhau, rhaid cyhoeddi Asesiad Anghenion y Boblogaeth ar wefannau'r holl awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol sy'n rhan o'i greu.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer ddadl ar yr eitem hon ac mewn egwyddor croesawyd y dull a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad i wneud asesiadau, ond cydnabuwyd bod angen gwneud gwaith sylweddol i gefnogi anghenion ac alinio'r gyllideb a gwasanaeth gyda phynciau, yn enwedig alinio gyda phartneriaid i gefnogi ar y cyd i sicrhau gwasanaethau cynaliadwy wedi'u targedu a mentrau a pholisïau trawsbynciol i gefnogi egwyddorion wedi'u nodi.

PENDERFYNWYD – cymeradwyo Asesiad Anghenion y Boblogaeth.

## 160 : DATGANIAD POLISI TÂL BLYNYDDOL 2017/18.

*(Datganodd cyfarwyddwyr a effeithir gan yr eitem hon ddatganiad ariannol a gadawon nhw'r cyfarfod tra bod yr eitem hwn yn cael ei hystyried).*

Gofynnwyd i'r Cyngor gytuno ar Ddatganiad Polisi Tâl Blynyddol ar gyfer 2017/18, yn unol â gofynion Deddf Lleoliaeth 2011.

Cyflwynodd y Cynghorydd Hinchey yr adroddiad gan gynnig argymhellion. Eiliwyd y Cynghorydd Hunt yr adroddiad.

Nododd y Cyngor fod Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus, Rheoliadau 2017, sy'n berthnasol i gyflogwyr sector cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr, yn gofyn bod data bwlch tâl rhwng y rhywiau yn cael ei gyhoeddi ar ddyddiad ciplun o 31 Mawrth. Mae gofyn i gyflogwyr sector cyhoeddus gyhoeddi eu hadroddiad bwlch tâl rhwng y rhywiau cyntaf o fewn y 12 mis sy'n dechrau gyda'r dyddiad ciplun, a disgwylir yr adroddiad cyntaf erbyn 31 Mawrth 2018. Felly mae bwriad i gynnwys yr adroddiad ar y bwlch tâl rhwng y rhywiau yn Natganiad Polisi Tâl 2018/19.

PENDERFYNWYD – cymeradwyo Datganiad Polisi Tâl y Cyngor ar gyfer 2017/18 cyn 31 Mawrth 2017 yn unol ag Adran 38 Deddf Lleoliaeth 2011.

161 : DIWYGIADAU I'R CYFANSODDIAD - PWYLLGOR Y CYFANSODDIAD 2 MAWRTH 2017

Gwnaeth y Cyngor dderbyn ac ystyried argymhellion y Pwyllgor y Cyfansoddiad, 2 Mawrth 2017 mewn perthynas â Hyfforddiant Aelodau a'r rheol ar Gynigion Dod i Ben yn ystod cyfarfodydd llawn y Cyngor.

Cynigiodd Cadeirydd y Pwyllgor y Cyfansoddiad, y Cynghorydd De'Ath yr argymhellion sydd wedi derbyn cefnogaeth unfryd gan y Pwyllgor. Eiliwyd y cynigion gan y Cynghorydd Hunt.

Roedd y Cynghorwyr yn cytuno gyda'r cynnig i wneud elfennau o'r rhaglen Sefydlu a hyfforddiant yn hanfodol ac na ddylai Cynghorwyr sydd ar Bwyllgorau lled-farnwrol fod yn gallu sefyll nes y caiff yr hyfforddiant hanfodol ei gwblhau. Hefyd, bod Ymrwymiad Caerdydd yn cael ei gryfhau o ran mandadu Cynghorwyr i gwblhau hyfforddiant datblygu yn rhan o'u rôl.

Cefnogwyd y newid i'r rheol gweithdrefn mewn perthynas â chynnig dod i ben 26 (c) i alluogi pleidlais ar unrhyw newidiadau cyn y bleidlais ar y cynnig gwreiddiol.

PENDERFYNWYD –

1. cymeradwyo'r diweddariad arfaethedig i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor, fel y nodir yn Atodiad A yr adroddiad;

2. cymeradwyo'r diwygiad i Ymrwymiad Caerdydd, fel y nodir ym mharagraff 11 yr adroddiad;

3. cymeradwyo Rheol 26(c) Rheolau Gweithdrefn Cyfarfodydd y Cyngor, fel y nodir ym mharagraff yr adroddiad;

4. cyfarwyddo'r Swyddog Monitro i ddiwygio'r Cyfansoddiad yn unol â hynny.

162 : DATGANIADAU

Derbyniwyd y datganiadau canlynol hyn -

1. Datganiad yr Arweinydd a Datblygu Economaidd a Phartneriaethau – a nododd wybodaeth mewn perthynas â
   - cwblhau Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd £1.2 biliwn ar Ddydd Gŵyl Dewi, 1 Mawrth 2017;
   - partneriaeth Dinasoedd Mawr y Gorllewin;
   - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd ar 21 Mawrth 2017, a gymeradwyodd yr Asesiad Llesiant Lleol;
   - Mae Addewid Caerdydd yn ceisio sicrhau bod yr holl bobl ifanc yn y ddinas yn cael eu cefnogi i gael swydd neu symud ymlaen at addysg bellach neu hyfforddiant trwy gysylltu pobl ifanc, ysgolion a sefydliadau addysgol ehangach gyda busnesau a chyflogwyr.
   - Dinas Gyflog Byw.

   Ymatebodd yr Arweinydd i gwestiynau ar Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a dyfodol trafnidiaeth rhanbarthol.

2. Datganiad Sgiliau, Diogelwch ac Ymgysylltu – sy'n nodi gwybodaeth mewn perthynas â:
   - - Dinas sy'n Ystyrlon o Blant;
   - Gwasanaethau Trais Domestig
   - Gwasanaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned ac I Mewn I Waith
   - Gwasanaethau Statudol Rheoliadol
   - Cydraddoldeb.

   Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau mewn perthynas â'r gwaith partneriaeth o gyflawni partneriaeth gydag Unicef a Rhaglen Partneriaid Hawliau Plant yn 2017/18 a chwblhau Siartr Iaith Arwyddion Prydeinig y Gymdeithas Fyddar Prydain.

3. Datganiad Trafnidiaeth, Cynllunio a Chynaliadwyedd – a nododd wybodaeth mewn perthynas â:
   - Chynllunio – derbyn grymoedd gan Lywodraeth Cymru i alluogi'r Cyngor i fynnu'n gyfreithiol waredu arwyddion gosod tai traddodiadol mwy mewn cymunedau myfyrwyr.
   - Mesurau effeithlonrwydd ynni
   - Diogelwch ar y Ffyrdd
   - Strategaeth Barcio
   - Parthau 20mya

   Ymatebodd yr Aelod cabinet i gwestiynau ar y camau gorfodi; gwerthusiad a chynigion pellach ar gyfer parthau 20mya yn y ddinas. Y dangosyddion perfformiad allweddol gaiff eu defnyddio i fesur llwyddiant y Strategaeth Feicio i gynyddu nifer y beicwyr. Yr angen am welliannau yn y gwaith o orfodi parcio a chyflymder o gwmpas ysgolion.

4. Datganiad Iechyd, Tai a Lles – rhoddwyd diweddariad ar Fentrau Bwrdd Partneriaeth a Gwasanaethau Oedolion; Diwygio Lles; Tai a chymorth rhanbarthol ar gyfer ffoaduriaid a Rhaglen Ailsefydlu Syria; datblygiadau Byw â Chymorth a gwasanaethau gwaith i drawsnewid parhaus.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y cymorth ar gyfer ffoaduriaid yng Nghaerdydd. Cytunodd yr Aelod Cabinet i ysgrifennu i'r Cynghorydd Rees gyda manylion am nifer y tai Cyngor wedi'u hadeiladu er 2012.

5. Datganiad y Dirprwy Arweinydd a Blynyddoedd Cynnar, Plant a Theuluoedd – rhoddwyd adolygiad o gyflawniadau mewn gwasanaethau a cyflawni mentrau ers dechrau'r weinyddiaeth oedd yn cynnwys ymysg pethau eraill y canlynol: -
   - Archwiliad cadarnhaol ar gyfer y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (Ionawr 2016).
   - Cyflwyno MASH.
   - Datblygu Strategaeth Cymorth Cynnar gynhwysfawr sy'n cael ei chofleidio gan yr holl bartneriaid a'i hintegreiddio gyda'r rhaglen newid ehangach y Gwasanaethau Plant.
   - Datblygu Strategaeth Rhianta Corfforaethol aml-asiantaeth integredig
   - Datblygu a lansio Strategaeth Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant effaith fawr;
   - Lansio ymgyrch faethu newydd

   Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar recriwtio a chadw Gweithwyr Cymdeithasol a'r pwysigrwydd yn rhan o'r cyfnod Sefydlu aelodau ym mis Mai 2017 o'u cyfrifoldebau fel Rhieni Corfforaethol

6. Datganiad Addysg - sy'n nodi gwybodaeth mewn perthynas â pheilota trefniadau derbyn wedi'u cyd-drefnu ar gyfer ysgolion uwchradd 2018-20; cynnydd ar gyllid Band B rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif; diweddariad ar adroddiadau ar archwiliadau Estyn a mentrau ysgolion megis y cynllun Pedal Mawr; a'r rhaglen prentisiaeth iau.
   Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y trefniadau derbyn i'r ysgol a'r broses ymgynghori gyda rhieni. Roedd yr Aelod Cabinet yn falch o gydnabod gyda'r cynghorwyr Ward yr adroddiadau llwyddiannus ar archwiliadau ar gyfer Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg a hefyd Ysgolion Cynradd Tredegarville, Danescourt a Stacey.

7. Datganiad yr Amgylchedd – sy'n nodi gwybodaeth am newidiadau i Gartref Cŵn Caerdydd, gwaith y Gwasanaethau Profedigaeth a Chofrestru, Parciau ac Awdurdod yr Harbwr; Gwasanaethau'r Gymdogaeth a'r mentrau glanhau ac aildrefnu a masnacheiddio gwasanaethau rheoli gwastraff .
   Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar gymdeithasau rhandiroedd yn cofrestru ar gyfer cytundebau rheoli lleol a diolchodd i'r Cynghorydd Holden am ei waith gyda chymdeithasau rhandiroedd; creu cafnau plannu cymunedol; pryderon diogelwch cŵn ym mharc Cefn Onn; cyflwyno gwasanaethau glanhau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ym mharciau.

8. Datganiad y Gwasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad – sy'n nodi gwybodaeth am Gysylltu â Chaerdydd; Comisiynu a Chaffael; Iechyd a Diogelwch a gwobr Efydd Safon Iechyd Corfforaethol.
   Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiwn ar faterion Cyflogaeth Ethegol mewn perthynas â cham-drin hawliau dynol a phryderon am gaethwasiaeth fodern.

9. Datganiad Datblygu'r Gymuned, Cydweithrediadau a Mentrau Cymdeithasol – sy'n nodi gwybodaeth am Hybiau a Llyfrgelloedd; Chwarae Awyr Agored;

Datblygu Chwaraeon a'r broses fodel cyflawni amgen ar gyfer Celf a Diwylliant .
Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau am y fargen bartneriaeth 8 blynedd rhwng Beicio Prydain a HSBC; y rhaglen hybiau; contract GLL ar gyfer Canolfannau Hamdden; a'r angen i uwchraddio caeau ym Mhontprennau.

163 : CYNNIG 1

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod hysbysiad o gynnig, wedi'i gynnig gan y Cynghorydd Walker a'i gefnogi gan y Cynghorydd Dianne Rees, wedi'i dderbyn yn unol â Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor a'i gynnwys yn y Gwysion ar gyfer y cyfarfod.

Roedd yr Hysbysiad o Gynnig fel y cyflwynodd y Cynghorydd Walker fel a ganlyn:

Mae adroddiad diweddar gan Inrix, un o asiantaethau mwyaf blaengar y byd ar ddadansoddi traffig, wedi dadansoddi traffig a thagfeydd mewn dros 1000 o ddinasoedd ledled y byd – yr astudiaeth fwyaf o'i bath erioed.

Daeth ymchwilwyr i'r casgliad bod tagfeydd traffig yn cael mwy o effaith negyddol ar fusnesau yng Nghaerdydd nag mewn unrhyw ddinas arall yn y DU.

Adroddodd hefyd fod:
- Tagfeydd yn ystod y dydd i'w gweld yng Nghaerdydd 15% o'r amser
- Gyrwyr yn treulio 32 awr y flwyddyn ar gyfartaledd wedi eu dal mewn tagfeydd yn yr oriau brig.

Daw'r adroddiad hwn ar adeg pan fo Cynllun Corfforaethol 2017/19 yn tanlinellu rhagolygon cynnydd yn y boblogaeth o hyd at 26%, yr uchaf o blith unrhyw ddinas yn y DU ac ar adeg pan fo lefelau llygredd yn achos pryder gwirioneddol.

Mae'r Cyngor yn galw ar y weinyddiaeth nesaf i herio amcangyfrifon poblogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Caerdydd. Bydd hyn yn angenrheidiol yng nghyd-destun yr ymadawiad o'r UE sydd ar fin digwydd ac yn sgil hynny y rhyddhau o rwymedigaethau ei bolisïau ffiniau agored. Byddai asesiad newydd gan weithwyr proffesiynol o ragolygon twf poblogaeth yn rhoi ystyriaeth i'r ffactorau newydd a phwysig hyn.

Ymhellach mae'n galw am gael ailystyried y rhagolygon tai sy'n codi o'r rhagolygon poblogaeth hyn. Dylai unrhyw addasu ar broffwydo twf poblogaeth gael eu hadlewyrchu yng nghynlluniau'r ddinas i ddyroddi tir glas ar gyfer datblygu. Bydd hefyd yn cael effaith amlwg ar y defnydd ar gerbydau, llygredd a phwysau ar ein ffyrdd.

I orffen, mae'r Cyngor yn gwrthod unrhyw gynnig i gyflwyno codi tâl am dagfeydd yn y ddinas. Byddai polisi o'r fath yn cael effaith negyddol ar lewyrch y ddinas ac yn rhwystro mewnfuddsoddiad ar adeg pan fydd y Fargen Ddinesig yn ceisio annog creu cyfoeth a thwf cyflogaeth ledled De Cymru.

Gwnaeth y Cynghorydd Dianne Rees eilio'r cynnig yn ffurfiol.

Dywedodd yr Arglwydd Faer nad oedd dim newidiadau i’r cynnig. Gwahoddodd yr Arglwydd Faer ddadl ar y cynnig ac ar y diwedd roedd yr hawl gan y Cynghorydd Walker i ymateb.

Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig a gynhigiodd y Cynghorydd Walker. **COLLWYD** y bleidlais.

164 : CYNNIG 2

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod hysbysiad o gynnig, wedi’i gynnig gan y Cynghorydd Huw Thomas wedi'i dderbyn yn unol â Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor a’i gynnwys yn y Gwysion ar gyfer y cyfarfod.

Roedd yr Hysbysiad o Gynnig fel y cyflwynodd y Cynghorydd Huw Thomas fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn

Yn nodi’r toriad sylweddol mewn termau real i gyllideb y Cyngor dros y 4 blynedd diwethaf, sef hyd at £120 miliwn o arbedion, ac ymhellach yn nodi bod hyn yn ganlyniad uniongyrchol i strategaeth o gynni bwriadol a roddwyd ar waith gan lywodraeth dan arweiniad Ceidwadol Y DU.

Yn nodi oherwydd y strategaeth ariannol a ddilynwyd gan Lywodraeth Lafur Cymru, bod effaith y torri ar wariant wedi bod yn sylweddol llai yng Nghymru nag yn Lloegr a’r Alban.

Yn croesawu’r ffaith nad yw’r setliad ariannol terfynol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Blwyddyn Ariannol 17/18 cynddrwg ag y rhagwelwyd, sydd wedi caniatáu buddsoddiad hanfodol mewn meysydd megis gwasanaethau cymdeithasol, glanhau’r strydoedd a phriffyrdd.

Yn diolch i’w gyflogeion am eu hymroddiad a’r gwydnwch a ddangoswyd ganddynt yng wyneb cynni na welwyd ei debyg, ac yn llongyfarch holl staff y Cyngor am eu gwaith caled, sydd wedi golygu gwelliannau nas gwelwyd o’r blaen o ran perfformiad, cyfraddau ailgylchu, canlyniadau addysg ac sydd wedi cynorthwyo Caerdydd i fod yn un o’r dinasoedd gorau yn Ewrop i fyw ynddi.

Ymrwymo i barhau i gefnogi ein staff trwy aros yn gyflogwr cyflog byw, drwy sicrhau bod pob aelod o staff yn cael eu trin â pharch a thrwy barhau i flaenoriaethu gwasanaethau rheng flaen.

Yn ymrwymo i bwyso ar Lywodraeth Cymru i barhau i leddfu effaith lloriol cynni bwriadol llywodraeth San Steffan, er mwyn galluogi Cyngor Caerdydd barhâi i adeiladu ar gynlluniau a mentrau a wnaed dros y 5 mlynedd diwethaf.

Gwnaeth y Cynghorydd Weaver eilio'r cynnig yn ffurfiol.

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod dau newid i’r cynnig.

Cynigiwyd Newid 1 gan y Cynghorydd Walker, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd McKerlich ac roedd fel a ganlyn: -

Dileu paragraff 1, 2 a 3 a rhoi'r canlynol yn eu lle:

Mae'r Cyngor hwn yn nodi fod y weinyddiaeth Llafur hon wedi methu'n llwyr â deall sut mae ariannu llywodraeth lleol yng Nghymru a'r gweinyddiaethau wedi'u trosglwyddo'n gweithio. Mae hyn wedi arwain at duedd ddiffygiol o roi bae ar lywodraeth leol am y penderfyniadau wedi'u gwneud gan Lywodraeth Cymru.

Mae'n nodi ymhellach fod Cymru wedi manteisio'n fawr, ers y 1970au, ar Fformiwla Barnett. Mae'r fformiwla hwn wedi galluogi Cymru i dderbyn tua £1.10 gan dreth ganolog am bob £1 a dderbynnir yn Lloegr. Mae'r fformiwla hon wedi goroesi er gwaethaf honiadau gan Awdurdodau Lleol yn Lloegr ei bod yn annheg.

Mae'r Cyngor hwn hefyd yn derbyn y realiti bod Llywodraeth y DU, yn ystod blynyddoedd diweddar, wedi anfon ymlaen sawl taliadau mawr i Lywodraeth Cymru i ategu gwariant Llywodraeth Leol a galluogi gostyngiadau yn Nhreth Gyngor. Mae'n difaru i LC ddewis peidio â rhoi'r arian hwn i Lywodraeth Leol er lles treth dalwyr.

Paragraff 4 – dileu popeth ar ôl 'eu gwaith caled'.

Paragraff 6 - dileu a rhoi'r canlynol yn ei le:

Yn olaf, mae'r Cyngor yn cydnabod, tra'n lleihau gwariant mewn rhai meysydd i leihau setliadau LlC, fod prif wasanaethau'r Cyngor yn parhau i weithredu, er gwaethaf ymwybyddiaeth y weinyddiaeth hon o beidio ag arbed arian allweddol ond methiant â mynd i'r afael â nhw a sicrhau bod arbedion ar gael. Bydd angen i gabinet yn y dyfodol ddatrys y diffyg hwnnw a chyflawni rhaglen foderneiddio lawn yn frys.'

Byddai'r cynnig terfynol fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn yn nodi fod y weinyddiaeth Llafur hon wedi methu'n llwyr â deall sut mae ariannu llywodraeth lleol yng Nghymru a'r gweinyddiaethau wedi'u trosglwyddo'n gweithio. Mae hyn wedi arwain at duedd ddiffygiol o roi bae ar lywodraeth leol am y penderfyniadau wedi'u gwneud gan Lywodraeth Cymru.

Mae'n nodi ymhellach fod Cymru wedi manteisio'n fawr, ers y 1970au, ar Fformiwla Barnett. Mae'r fformiwla hwn wedi galluogi Cymru i dderbyn tua £1.10 gan dreth ganolog am bob £1 a dderbynnir yn Lloegr. Mae'r fformiwla hon wedi goroesi er gwaethaf honiadau gan Awdurdodau Lleol yn Lloegr ei bod yn annheg.

Mae'r Cyngor hwn hefyd yn derbyn y realiti bod Llywodraeth y DU, yn ystod blynyddoedd diweddar, wedi anfon ymlaen sawl taliadau mawr i Lywodraeth Cymru i ategu gwariant Llywodraeth Leol a galluogi gostyngiadau yn Nhreth Gyngor. Mae'n difaru i LC ddewis peidio â rhoi'r arian hwn i Lywodraeth Leol er lles treth dalwyr.

Mae'r Cyngor hwn yn ddiolch i'w gyflogeion am y penderfyniad a'r gwydnwch y maent wedi'i ddangos yn wyneb llymder heb ei debyg o'r blaen, ac yn llongyfarch i holl staff y Cyngor am eu gwaith caled.

Mae'n penderfynu parhau i gefnogi ein staff trwy aros yn gyflogwr cyflog byw, drwy sicrhau bod pob aelod o staff yn cael eu trin â pharch a thrwy barhau i flaenoriaethu gwasanaethau rheng flaen.

Yn olaf, mae'r Cyngor yn cydnabod, tra'n lleihau gwariant mewn rhai meysydd i leihau setliadau LIC, fod prif wasanaethau'r Cyngor yn parhau i weithredu, er gwaethaf ymwybyddiaeth y weinyddiaeth hon o beidio ag arbed arian allweddol ond methiant â mynd i'r afael â nhw a sicrhau bod arbedion ar gael. Bydd angen i gabinet yn y dyfodol ddatrys y diffyg hwnnw a chyflawni rhaglen foderneiddio lawn yn frys.

Cynigiwyd Newid 2 gan y Cynghorydd Boyle, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Howells ac roedd fel a ganlyn: -

Dileu paragraffau 1, 2 a 3.

Ym mharagraff 4 – dileu'r holl eiriau ar ôl dangoswyd...

Dileu paragraff 6.

Byddai'r cynnig terfynol fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn:

Yn diolch i'w gyflogeion yr ymrwymiad a'r gwydnwch y maent wedi'u dangos.

Ymrwymo i barhau i gefnogi ein staff trwy aros yn gyflogwr cyflog byw, drwy sicrhau bod pob aelod o staff yn cael eu trin â pharch a thrwy barhau i flaenoriaethu gwasanaethau rheng flaen.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar y cynnig. Ar ddiwedd y ddadl, gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Huw Thomas i grynhoi, a chynhaliwyd pleidlais ar ôl hynny.

Cynhaliwyd pleidlais ar newid 1 a gynhigiodd y Cynghorydd Walker. **COLLWYD** y bleidlais.

Cynhaliwyd pleidlais ar newid 2 a gynhigiodd y Cynghorydd Boyle. **COLLWYD** y bleidlais.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig gwreiddiol a gynhigiodd y Cynghorydd Huw Thomas. **ENILLWYD** y bleidlais.

EGWYL

*(Yn dilyn yr egwyl y Dirprwy Arglwydd Faer oedd y Cadeirydd yn lle'r Arglwydd Faer)*

*(Dirprwy Arglwydd Faer, y Cynghorydd Georgina Phillips oedd y Cadeirydd)*

165 : CYNNIG 3

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod hysbysiad o gynnig, wedi'i gynnig gan y Cynghorydd Clark wedi'i dderbyn yn unol â Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor a'i gynnwys yn y Gwysion ar gyfer y cyfarfod.

Roedd yr Hysbysiad o Gynnig fel y cyflwynodd y Cynghorydd Clark fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn yn nodi'r canlynol:

- Bod ei Gynllun Datblygu Lleol wedi ymrwymo i gyrraedd shifft modal 50:50 rhwng teithiau a wneid gan geir a theithiau a wneir trwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus erbyn 2026.

- Canfu Arolwg Holi Caerdydd fod cyfran y teithiau i'r gwaith ar fws wedi gostwng 2% rhwng 2005 a 2015 o 12.7% i 10.7%.

- Mae'r weinyddiaeth Lafur ar fin torri ei haddewid i adeiladu gorsaf fysus ganolog newydd erbyn Rhagfyr 2017. Felly mae'n debygol na fydd gan Gaerdydd orsaf fysus am o leiaf 3 blynedd.

- Argymhellodd yr adroddiad ar gais cynllunio cyfnewidfa drafnidiaeth y dylid "cyfyngu nifer y bysus oedd yn defnyddio'r gyfnewidfa" fel dewis i leihau effaith ansawdd awyr y cynigion.

- Mae'n anodd iawn i deithwyr sy'n gadael Gorsaf Reilffordd Canolog Caerdydd i wybod pa fws i'w ddal i gyrraedd pen draw eu taith.

Felly mae'r Cyngor hwn yn galw am:

- Fwy o safleoedd parcio a theithio wedi eu lleoli yn dda ar lwybrau strategol i mewn i'r ddinas.
- Gorsaf fysus ganolog addas at y diben i gael ei adeiladu cyn gynted ag y bo modd.
- Gweithio gyda darparwyr bysus i annog defnyddio bysus mwy cyfeillgar i'r amgylchedd sy'n lleihau llygredd awyr.
- Gweithio gyda Network Rail i sefydlu gorsafoedd rheilffordd newydd yn Mynachdy, Sain Ffagan a Llaneirwg sy'n cysylltu'n dda â gwasanaethau bysus.
- Gwell arweiniad o lawer i deithwyr posib sy'n defnyddio gwasanaethau bws Caerdydd.
- Gwell gwasanaeth trên ar y City Line, gan gynnwys mwy o gerbydau ar wasanaethau teithwyr a chyflwyno gwasanaeth ar y Sul.

Dylid paratoi adroddiad ar y mater i'r Weithrediaeth a/neu'r Cyngor ei ystyried fel sy'n briodol

Gwnaeth y Cynghorydd Howells eilio'r cynnig yn ffurfiol.

Nododd yr Arglwydd Faer fod un diwygiad i'r cynnig a gynhigiwyd gan y Cynghorydd Patel a gafodd ei eilio gan y Cynghorydd Mitchell fel a ganlyn:

Dileu popeth ar ôl y pwynt bwled cyntaf a rhoi'r canlynol yn ei le

- Mae cyfran y rhai hynny sy'n teithio i'r gwaith trwy gerdded, ar feic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghaerdydd wedi cynyddu gan 27% rhwng 2006 a 2016. Mae cyfran teithio i'r gwaith ar drafnidiaeth gyhoeddus (bws a thrên ar y cyd) wedi cynyddu gan 42% (Bws +10%, Trên +133%).
  Mae'r rhai hynny sy'n teithio i'r gwaith mewn car preifat wedi gostwng gan 16%.

- Mae'r safle Parcio a Theithio wrth Gyffordd 33 yr M4 hefyd wedi'i sicrhau trwy ganiatâd cynllunio.

- O 2012, mewn perthynas â'r Gyfnewidfa Drafnidiaeth, mae'r Weinyddiaeth Llafur:
  - ➢ Wedi datgloi a chaffael y safle datblygu a ffefrir
  - ➢ Wedi caffael dyluniad o'r radd flaenaf gan Fosters + Partners
  - ➢ Wedi dymchwel Tŷ Marland
  - ➢ Wrthi'n dymchwel y maes parcio NCP
  - ➢ Wedi sicrhau caniatâd cynllunio
  - ➢ Â chynllun wedi'i ariannu'n llawn

  Mae'r Cyngor hwn felly'n galw ar bartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru:

- I gefnogi Cam 2 y project Metro, sy'n cynnwys cynlluniau i wneud gwelliannau mewn gorsafoedd rheilffordd allweddol, gan gynnwys Llandaf a Radur.
- I'n cefnogi i weithio gyda Network Rail i sefydlu gorsafoedd rheilffordd newydd yn Mynachdy, Sain Ffagan, Cathays a Llaneirwg ac eraill sy'n cysylltu'n dda â gwasanaethau bysus.

<u>Byddai'r cynnig terfynol fel a ganlyn:</u>

Mae'r Cyngor hwn yn nodi'r canlynol:

- Fod ei Gynllun Datblygu Lleol wedi ymrwymo i gyrraedd shifft modal 50:50 rhwng teithiau a wneid gan geir a theithiau a wneir trwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus erbyn 2026.
- Mae cyfran y rhai hynny sy'n teithio i'r gwaith trwy gerdded, ar feic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghaerdydd wedi cynyddu gan 27% rhwng 2006 a 2016. Mae cyfran teithio i'r gwaith ar drafnidiaeth gyhoeddus (bws a thrên ar y cyd) wedi cynyddu gan 42% (Bws +10%, Trên +133%).
  Mae'r rhai hynny sy'n teithio i'r gwaith mewn car preifat wedi gostwng gan 16%.
- Mae'r safle Parcio a Theithio wrth Gyffordd 33 yr M4 hefyd wedi'i sicrhau trwy ganiatâd cynllunio.

- O 2012, mewn perthynas â'r Gyfnewidfa Drafnidiaeth, mae'r Weinyddiaeth Llafur:
  - ➢ Wedi datgloi a chaffael y safle datblygu a ffefrir
  - ➢ Wedi caffael dyluniad o'r radd flaenaf gan Fosters + Partners
  - ➢ Wedi dymchwel Tŷ Marland
  - ➢ Wrthi'n dymchwel y maes parcio NCP
  - ➢ Wedi sicrhau caniatâd cynllunio

- Â chynllun wedi'i ariannu'n llawn

Mae'r Cyngor hwn felly'n galw ar bartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru:

- I gefnogi Cam 2 y project Metro, sy'n cynnwys cynlluniau i wneud gwelliannau mewn gorsafoedd rheilffordd allweddol, gan gynnwys Llandaf a Radur.

- I'n cefnogi i weithio gyda Network Rail i sefydlu gorsafoedd rheilffordd newydd yn Mynachdy, Sain Ffagan, Cathays a Llaneirwg ac eraill sy'n cysylltu'n dda â gwasanaethau bysus.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar y cynnig. Ar ddiwedd y ddadl, gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Clark i grynhoi, a chynhaliwyd pleidlais ar ôl hynny.

Cynhaliwyd pleidlais ar y newid a gynhigiodd y Cynghorydd Patel. **ENILLWYD** y bleidlais.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Patel fel cynigiwr y Cynnig Terfynol i ymateb.

Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig Terfynol a gynhigiodd y Cynghorydd Patel. **ENILLWYD** y bleidlais.

166 : CWESTIYNAU LLAFAR

Cwestiwn: *Y Cynghorydd Sir Clark*

Beth oedd prif fenter y Cyngor a sicrhaodd fod cyfraddau ailgylchu Caerdydd yn aros yn 58% yn 2015/16?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Derbyshire*

Fel y dywedwyd yn gynharach, mae'r cynnydd yn yr ailgylchu yn 2015/16 o ganlyniad i sawl menter, gan gynnwys:

- Yr ymgyrch "Ailgylchu Mwy, Taflu Llai" i annog rhoi deunyddiau ailgylchu yn y bagiau gwyrdd a'r cadis ailgylchu bwyd yn lle yn y bagiau du
- Ailgylchu lludw gwaelodol o'r ffatri trin gwastraff gweddilliol a gwneud cynhyrchion concret
- Rheoli ar fagiau gan siopau i alluogi argaeledd gwell i'r cyhoedd
- Mwy o addysg/gorfodi i drigolion
- Rheoliadau dulliau adnabod mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref

Roedd angen pob un i wneud gwahaniaeth.

Cwestiwn atodol: *Y Cynghorydd Sir Clark*

Nid strategaeth leihau gwastraff y weinyddiaeth Llafur oedd y prif reswm dros y cynnydd mewn cyfraddau ailgylchu. Yn wir, ailgylchwyd cyfanswm y papur, metel, plastig a gwydr rhwng 2014/15 a 2015/16. Mewn gwirionedd, y prif reswm dros

gyflawni’r targedau ailgylchu - 58% - oedd o ganlyniad i gynnwys llosgi ac ailgylchu hen finiau olwynion.

Ydych chi’n cydnabod yr ystadegau hyn?

<u>Ymateb:</u> *Y Cynghorydd Sir Derbyshire*

Yn amlwg nid ydych o hyd yn deall ein sefyllfa gydag ailgylchu neu'r hyn sy’n gwneud gwahaniaeth. Mae’n un peth sy’n gwneud gwahaniaeth ym maes ailgylchu, ac mae ein targedau ailgylchu'n cynyddu'n gyflymach gyflymach.

Felly pan edrychwn at ffigurau 15/16, er enghraifft, mae’r newidiadau wedi’u gwneud ond yn ffigurau rhannol flwyddyn. Felly, er enghraifft, dim ond rhan o’r flwyddyn oedd y lludw gwaelodol, dim ond rhan o’r flwyddyn oedd y "Ailgylchu Mwy, Taflu Llai".

Yr hyn y byddwch yn ei weld pan ddaw ffigurau eleni yw ein bod wedi cynyddu eto. Rydym bellach yn ailgylchu tua 60%. A dyna’r hyn sy’n bwysig. Cynyddu’r ffigurau hynny. Mae canran ailgylchu’n cynyddu bob blwyddyn, ac mae wedi yn ystod y tair blynedd hynny ers i mi gymryd y swydd hon. A gobeithio y byddant yn parhau i gynyddu gan fod angen i ni fwrw 64% mewn cyfnod byr iawn.

<u>Cwestiwn atodol:</u> *Y Cynghorydd Sir Cowan*

Gan edrych ar bapurau blaenorol y Cabinet a’r cyngor wedi’i roi, yw’n bosibl ar y cam hwn i Heol Wedal barhau i fod ar agor yn barhaol?

<u>Ymateb:</u> *Y Cynghorydd Sir Derbyshire*

Mae popeth yn bosibl. Mae’n bosibl y gallai’r Ceidwadwyr fod mewn grym yng Nghaerdydd ym mis Mais, ond mae’n annhebygol iawn.

<u>Cwestiwn:</u> *Y Cynghorydd Sir Walker*

Ymysg llawer o fethiannau yn ystod ei bum mlynedd mae methiant Llafur i gyflawni’r addewidion iddo nodi yn ei Maniffesto yn 2012. I ddyfynnu tair enghraifft o’i chwe phrif addewid:

- “Peidio a chynyddu’r dreth gyngor yn fwy na 2% - ac eithrio’r flwyddyn gyntaf, mae’r addewid honedig wedi’i anwybyddu’n sinigaidd.
- “Mynd i’r afael ag argyfwng tai Caerdydd” – i’r wrthwyneb, mae diffyg mawr yn y tai sydd ar gael yn parhau i ddifetha’r ddinas gyda miloedd ar y rhestri aros.
- “Diogelu mannau agored gwyrdd a gwych Caerdydd” – mae CDLL Llafur wedi canu cloch angladd mannau agored o’r fath.

A fydd yr Arweinydd bellach yn cyfaddef i'w fethiant, a methiant ei blaid, i gyflawni'r addewidion maniffesto allweddol hyn?

<u>Ymateb:</u> *Y Cynghorydd Sir Bale*

Er gwaethaf toriadau sylweddol, fel y dywedais ynghynt, gan y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ystod y 10 mlynedd ddiwethaf i gyllid Caerdydd – mwy na £200m – rwy’n credu bod y weinyddiaeth Llafur hon wedi cyflawni ymrwymiadau ei maniffesto'n dda iawn. Gallwn restru sawl un.

Y cyntaf, wrth gwrs, yw ein bod wedi gweithredu'n gyflym iawn i ohirio’r Hawl i Brynu i ddiogelu ein stoc tai cyfredol. Ond hefyd, rydym yn gweithio’n galed i adeiladu cartrefi cyngor newydd i bobl ledled y ddinas.

Rydym wedi llunio Cynllun Datblygu Lleol cynaliadwy. Wrth gwrs, byddwch yn gwybod, fel Aelod dros Lys-faen, ein bod wedi gweithredu i ddiogelu Mynydd Caerffili gyda lletem las gan ddiogelu'r darn hwnnw o fan gwyrdd yn y ddinas am yr hirdymor.

Ac wrth gwrs, mae ein sylfaen ar gyfer y Dreth Gyngor yn hanfodol i ni ddiogelu a buddsoddi yng ngwasanaethau’r Cyngor. Ac yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, mae ein cynyddiadau wedi bod yn hanner isaf y cynghorau yng Nghymru.

<u>Cwestiwn atodol:</u> *Y Cynghorydd Sir Walker*

Ni allaf ddeall yn glir pan nad ydych chi’n derbyn nad yw’r tri addewid yma wedi’u cyflawni. Rydych yn gwybod eich bod wedi cynyddu’r Dreth Gyngor yn fwy na 2%. Dogfennir yr argyfwng tai yn dda. Nid ydych wedi adeiladu un tŷ cyngor. Mae miloedd ar y rhestr aros.

O ran lletem las yn Llys-Faen, mae’n ddrwg gennyf, nid oes cynlluniau ar ie chyfer. Felly nid wyf yn gwybod o le rydych wedi cael y syniad hwnnw. Ac adeiladir ar y tir fferm gweddilliol i’r de o’r M4.

Felly beth am dderbyn eich bod wedi methu â chyflawni'r tri ymrwymiad mawr hyn ac efallai rydych wedi gwneud yn well gyda'r tri arall - gallech chi bostio am y rheiny – ond yn sicr, gyda’r tri yma, rydych wedi methu.

<u>Ymateb:</u> *Y Cynghorydd Sir Bale*

Yn syml nid ydych yn derbyn yr honiadau wedi’u gwneud gan Arweinydd y gwrthblaid Ceidwadol. Ac ni fyddwn yn disgwyl iddo dderbyn ei rôl a rôl y llywodraeth yn yr ymosodiad enfawr ar wasanaethau cyhoeddus mewn cynghorau ledled Cymru. Ac mae’n dda i ddim dweud wrthym eich bod eisiau gwasanaethau gwell a'ch bod eisiau gweld gwelliant mewn gwasanaethau pan rydym yn gweld yn Lloegr fod cynghorau megis Surrey yn ceisio’n enbyd ddod o hyd i ffyrdd newydd o gynyddu’r Dreth Gyngor gan hyd at 15% ac yna’n cael bargenion arbennig gan Lywodraeth Y DU heb unrhyw ymgynghori â chynghorau eraill ledled y DU. Rwy’n credu mai dyna’r hyn sy’n ein synnu ac a fydd yn gwylltio trigolion yma yng Nghaerdydd.

<u>Cwestiwn atodol:</u> *Y Cynghorydd Sir Ralph Cook*

Yng nghyfarfodydd maniffesto’r Plaid Llafur yn 2012, cafwyd cynnig i lain las gael ei chynnwys yn ein maniffesto. Dadleuais yn ei herbyn yn gryf iawn gan roeddwn yn gwybod y byddai'n eithriadol anodd i'w chael. Dywedodd y rhan fwyaf “na, rydym

eisiau hynny" felly fe wnaethon ni ei rhoi ynddo. Treuliais flwyddyn yn sicrhau bod y llain las yn ymddangos yn nrafft ymgynghori'r CDLL.

Yn y cyfarfod diwethaf es i iddo, cred neu beidio, chwe mis yn ôl, dywedais wrth Ramesh Patel nad yw wedi'i fethu eto. Y cyfan oedd angen i chi ei wneud oedd mynd i'r llys, i gael adolygiad barnwrol ac i'w ymladd, i brofi yr oeddech yn fodlon sefyll dros ymrwymiad maniffesto.

Ydych chi'n cyfaddef bellach y dylech chi fod wedi'i ymladd, fod lletemau glas ond tan 2026, fod tir yng ngogledd Caerdydd yn bregus o 2026 ymlaen, lle y gallech chi, trwy fynd i'r llys, ymladd fel y maent wedi gwneud yn Lloegr ac yn ennill, oherwydd rwy'n credu y byddech wedi ac hyd yn oed os na wnaethoch chi o leiaf byddech chi fod wedi dangos awydd trio, ac yna gallech chi fod wedi diogelu'r tir am 50 o flynyddoedd.

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Bale*

Nid wyf yn derbyn hynny, y Cynghorydd Cook. Rwy'n credu ei bod wedi bod yn bwysig iawn dangos ein bod wedi bod yn gallu sicrhau'r diogelwch hwnnw. Yn sicr na sicrhawyd dan yr ymdrechion di-rif wedi'u methu gan y weinyddiaeth flaenorol i roi Cynllun Datblygu Lleol ar waith. Fe wnaethon ni hynny. A thrwy allu cael y cynllun hwnnw ar waith bellach, a'r diogelwch hwnnw, mae'n rhoi amser i ni i weithio'n rhanbarthol a chyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth a chynllun datblygu rhanbarthol i'r dyfodol. Ac rwy'n siŵr y bydd y weinyddiaeth, ac rwy'n gobeithio mai Gweinyddiaeth Llafur y bydd hi, yn gwthio i ymestyn y diogelwch hwnnw trwy lain las yn ngogledd y ddinas hefyd.
Cwestiwn: *Y Cynghorydd Sir Awan*

Pwy yw cynrychiolydd cyfredol y Cyngor ar gyfer y gymuned fyddar?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir De'Ath*

Fi yw Arweinydd y Cabinet dros Gydraddoldeb, sy'n cynnwys y ffordd y mae pobl fyddar yn cael mynediad at wasanaethau a gwybodaeth. Hefyd, fy ffrind a fy nghyd-weithiwr, y Cynghorydd Ali Ahmed yw ein Hyrwyddwr Aelod dros Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Cwestiwn: *Y Cynghorydd Sir Dilwar Ali*

Allwch chi nodi eich cyflawniadau ar gyfer ein dinas?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Bale*

Wrth gwrs, fel rwyf wedi ailadrodd yn ystod y cyfarfod hwn, fe wnaethon ni etifeddu gweinyddiaeth Cyngor oedd yn methu yn 2012, lle roedd gwasanaethau cymdeithasol ac addysg yn agos at angen mesurau arbennig. Rydym wedi'i wrthdroi. Ni bellach yw'r trydydd cyngor sydd wedi gwella fwyaf yng Nghymru

Felly mae'r weinyddiaeth Llafur hon wedi cyflawni, a byddwn yn parhau i gyflawni ar gyfer pobl y ddinas hon, o ran materion sy'n bwysig iddynt.

Rydym wedi sicrhau, wrth gwrs, y Fargen Ddinesig £1.2b honno ac rydym yn arwain ar y gwaith i adfywio a thrawsnewid Sgwâr Canolog.

Rydym wedi cyflawni newid mewn perfformiad yn ein hysgolion, ac rwy'n talu teyrnged i'r Cynghorydd Merry a'r Cynghorydd Magill am eu gwaith.
Ac rydym wedi trawsnewid y Gwasanaethau Cymdeithasol, hefyd.

Rwy’n credu na yw un munud yn ddigon o roi rhestr i chi o holl gyflawniadau'r weinyddiaeth hon, ond rydym wedi gwneud llawer mewn cyfnod byr iawn.

<u>Cwestiwn atodol:</u> *Y Cynghorydd Sir Dilwar Ali*

Fydd yr Arweinydd yn nodi buddion y Fargen Ddinesig i Gaerdydd?

<u>Ymateb:</u> *Y Cynghorydd Sir Bale*

Yn ogystal â rhai o’r materion dinas gyfan hynny, rwy’n credu o ran y model partneriaeth a datblygu economaidd, yr hyn sy’n fy nharo yw’r gallu i newid yn gyfan gwbl y cyd-destun gweithio rhanbarthol mewn 10 cyngor ledled de-ddwyrain Cymru. Dywedodd llawer o bobl nad oedd hynny’n bosibl. Ond yr hyn rydym wedi’i weld yw’r cynghorau hynny’n dod ynghyd yn rhannu posibiliadau gweithio mewn partneriaeth a sylweddoli ein bod ni'n llawer gwell ac yn llawer gryfach wrth gydweithio yn hytrach na pheidio â chydweithio, ac rwy’n credu y bydd hynny’n bendant yn rhywbeth y byddaf yn mynd ag ef yn ei flaen.

<u>Cwestiwn atodol:</u> *Y Cynghorydd Sir Dianne Rees*

Er tegwch a gostyngeiddrwydd, allwch chi nodi lle y gallech fod wedi gwneud pethau'n well a'ch methiannau ar gyfer ein dinas?

<u>Ymateb:</u> *Y Cynghorydd Sir Bale*

Rwy’n credu bod y mater sydd wedi fy siomi fi’n fwy nag unrhyw beth arall wedi bod methiant cyson Llywodraeth Y DU i ariannu’r gwaith o ailddatblygu Gorsaf Drenau Caerdydd Canolog. Rwy’n wedi ceisio tro ar ôl tro i gael y mater hwnnw ar yr agenda a byddaf yn ailadrodd eto i’r meinciau Ceidwadol fod angen iddynt gefnogi’r Cyngor hwn i gael y project hwnnw. Mae’n rhaid ei gael os ydym yn mynd i wneud i'r metro weithio yn y rhanbarth hwn.

<u>Cwestiwn:</u> *Y Cynghorydd Sirol Bridges*

Mae trigolion yn rhoi gwybod bod mesurau diogelwch ychwanegol yn cael eu cymryd yn Rhandiroedd Allensbank er mwyn osgoi tipio anghyfreithlon. Fydd yr Aelod Cabinet yn cytuno bod hyn yn annymunol ac y bydd y sefyllfa’n waethygu pan fo’r tomen yn Heol Wedal ar gau?

<u>Ymateb:</u> *Y Cynghorydd Sir Derbyshire*

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gynnydd yn yr achosion o dipio anghyfreithlon yn rhandir Allensbank ac felly nid yw unrhyw fesurau diogelwch yn cael eu gweithredu.

<u>Cwestiwn atodol:</u> *Y Cynghorydd Sirol Bridges*

Wel, rwy'n hapus iawn i'ch cywiro, y Cynghorydd Derbyshire, gan ddywedwyd wrthyf i gan ddeiliaid rhandir dim ond yr wythnos ddiwethaf eu bod yn cael eu gorfodi i wneud mesurau diogelwch eu hunain oherwydd materion tipio anghyfreithlon. Yn glir mae problem gyda thipio anghyfreithlon yma. Nid wyf yn credu y byddai unrhyw un sy'n byw yn yr ardal neu'i gwybod yn dadlau'n erbyn hynny. Felly yn wir fy nghwestiwn, y byddwn yn ei ailadrodd, yw os caiff y tomen yn Heol Wedal ei gau – yn sicr mae'n rhaid i chi gytuno y bydd cynnydd yn yr achosion o dipio anghyfreithlon yn strydoedd Gabalfa a Cathays.

<u>Ymateb:</u> *Y Cynghorydd Sir Derbyshire*

O ran y cynnydd yn yr achosion o dipio anghyfreithlon rydych yn cyfeirio ato yn Allensbank, os bydd pobl yn rhoi gwybod i ni am dipio anghyfreithlon, byddwn yn delio ag ef fel rydym bob amser yn ei wneud. Os edrychwch ar yr adroddiadau, gwelwch fod Caerdydd bellach yn gwaredu'r holl wastraff wedi'i dipio'n anghyfreithlon – 98% ohono – o fewn y pum diwrnod statudol, sy'n well na'r weinyddiaeth flaenorol.

O ran Heol Wedal, nid wyf yn cytuno â chi o gwbl. Oni bai eich bod yn trio dweud wrthyf y bydd trigolion o'ch ardal chi, er enghraifft, yn tipio'n anghyfreithlon os bydd rhaid iddynt deithio pum neu chwech munud yn fwy i waredu eu sbwriel. Efallai y byddwch yn cadarnhau bod hynny'n wir.

<u>Cwestiwn atodol:</u> *Y Cynghorydd Sir Holden*

Mae aelodau Cymdeithas Rhandiroedd Allensbank yn clirio'r rhan fwyaf o'r sbwriel sy'n cael ei ddympio yno yn rheolaidd. Maent wedi gofyn am sgip – sgip cymunedol – bob hyn â hyn ar gyfer y rhandiroedd hynny, gan fod sawl problem yn yr ardal honno o ran sbwriel. Fyddech chi'n ymrwymo i ddarparu sgip nawr ac yn y man, efallai unwaith y flwyddyn yn yr haf?

<u>Cwestiwn atodol:</u> *Y Cynghorydd Sir Derbyshire*

Yr hyn y byddwn yn ei ddweud yw bod sgipiau bob amser yn beth problematig oherwydd os darparwch sgip yn aml mae pobl eraill yn cael eu denu i roi sbwriel ynddo. Felly nid wyf yn siŵr a fyddai'n gweithio o reidrwydd. Yr hyn y byddwn yn ei ddweud i berchenogion rhandiroedd yno yw os oes angen help arnynt ar unrhyw adeg gyda glirio gwastraff wedi'i dipio'n anghyfreithlon yna y cyfan y mae angen iddynt ei wneud yw cysylltu á ni a byddwn yn gwneud ein gorau i'w helpu, wrth fynd ymlaen.

<u>Cwestiwn:</u> *Y Cynghorydd Sir Graham Thomas*

Yng ngoleuni caniatáu cynllunio'r wythnos ddiwethaf ar gyfer adeiladu bron i 6000 o gartrefi yng ngogledd-orllewin Caerdydd, ar ben ceisiadau wedi'u cymeradwyo'n flaenorol am 1500 o gartrefi ger Creigiau, Goitre Fach a mwy o geisiadau mawr i

ddod o hyd, pryd mae'r Cyngor yn bwriadu llunio cynllun trafnidiaeth strategol newydd ar gyfer gogledd-orllewin Caerdydd?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Patel*

Mae'r datblygiadau rydych yn cyfeirio atynt yn geisiadau cynllunio amlinellol, sy'n amodol ar amodau cynllunio a chytundebau cyfreithiol.

Gan eu bod yn "amlinellol', bydd angen i'r datblygiadau hyn gael eu cyflwyno ymhellach i'r awdurdod cynllunio lleol i gyflawni amodau a chymeradwyo materion wrth gefn manwl.
Ar ôl eu gweithredu, bydd y datblygiadau hyn yn sicrhau gwelliannau i seilweithiau priffordd a thrafnidiaeth ar y safle ac oddi ar y safle sylweddol y mae eu hangen i leihau effeithiau trafnidiaeth y datblygiadau arfaethedig hyn.

Cwestiwn atodol: *Y Cynghorydd Sir Graham Thomas*

Tybed a allwch chi ddweud wrthym a yw'r cynllun metro arfaethedig yn rhan annatod o'r strategaeth trafnidiaeth i'r dyfodol.

Mae'n ymddangos i mi mai'r unig ateb go iawn yw hi a'i bod yn drobwynt posibl ar gyfer y broblem fawr hon. Ac ar adeg pan fo'r metro o'r diwedd yn edrych yn fwy posibl, a gaiff ei gwblhau ac a yw'n rhan o strategaeth trafnidiaeth i'r dyfodol?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Patel*

Mae'r Metro yn sicr yn rhan allweddol o Gaerdydd. Rydym bob amser wedi gwneud hynny'n glir. Mae'r llwybrau bysus cludiant cyflym, hefyd y rheilffordd ysgafn, pob un o'r rheiny, wedi bod yn glir iawn. Pan rwyf wedi cyfarfod â fy nghydweithwyr, sef y naw awdurdod lleol eraill, rwyf wedi cyflwyno'r ddadl honno'n gryf iawn yno. Gyda Llywodraeth Cymru, rwyf wedi gwneud yr un dadleuon. Yn amlwg, bydd llawer o'r arian hwn yn dod gan Lywodraeth Cymru a chan bartneriaid, ond yn sicr o'n rhan ni, mae'r metro, y rheilffordd ysgafn y byddwn yn ei alw, yn sicr yn rhywbeth y byddwn yn bendant am ei ymestyn ledled y ddinas i gyd ar ryw adeg.

Cwestiwn atodol: *Y Cynghorydd Sir Ralph Cook*

Yn dilyn Cynllun Trafnidiaeth Lleol trychinebus Caerdydd, a basiwyd gan y Cyngor y mis Tachwedd 2014, heb ymgynghori ag Aelodau neu'r cyhoedd, neu hyd yn oed ein hawdurdodau cymdogol neu Fwrdd y Ddinas-ranbarth, siaradais sawl gwaith dros e-bost gyda chi ac Andrew Gregory am y problemau sy'n ymwneud â'r cynllun hwnnw, a chadarnhaodd Andrew Gregory a chithau fod cynllun newydd yn mynd i gael ei ddatblygu. A'r cwestiwn yw, felly, pryd mae'r cynllun hwnnw'n mynd i gael ei wneud? Gan nad yw wedi'i wneud eto.

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Patel*

Y Cynghorydd Cook, rwy'n meddwl eich bod wedi sôn digon am y Cynllun Trafnidiaeth Lleol trychinebus hwn... Gadewch i ni fod yn onest yma, nid ydych yn arbenigwr yn y maes hwn. O bell ffordd, nid ydych chi. Mae'r arbenigwyr ar draws y

ffordd a Swyddogion ydyn nhw. Nhw yw'r arbenigwyr. Maent yn gwybod llawer mwy na chi am faterion trafnidiaeth. Er rydych yn meddwl ei fod yn drychinebus, fe'i chymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru felly yn amlwg rydych yn anghywir felly diolch yn fawr iawn.

<u>Cwestiwn:</u> *Y Cynghorydd Sir Dilwar Ali*

Fydd yr Arweinydd yn rhoi diweddariad ar drafodaethau mewn perthynas â'r gwaith i ailddatblygu Gorsaf Drenau Caerdydd Canolog?

<u>Ymateb:</u> *Y Cynghorydd Sir Bale*

Mae buddsoddi yng Ngorsaf Ganolog Caerdydd o bwys hanfodol i ffyniant prifddinas Cymru yn y dyfodol ac mae'n hir-ddisgwyledig.

Mae Network Rail wedi dadlau ers tro y bydd y twf yn nifer y teithwyr yn wir yn gwneud yr orsaf honno'n anniogel erbyn 2024, ac rwyf wedi cyfarfod â'r Prif Weithredwr i drafod ariannu.

Yn ystod trafodaethau am y Fargen Ddinesig, rhoddwyd i'r Cyngor ymrwymiad cryf iawn gan Lywodraeth y DU dan Ysgrifennydd Gwladol yr adeg honno, Stephen Crabb, y byddent yn dechrau deialog positif i ddatblygu achos buddsoddi ar gyfer yr Orsaf Ganolog.

Rwyf wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth cyfredol, Chris Grayling, i amlinellu'r achos trafnidiaeth dros fuddsoddi yng Nghaerdydd Canolog.

Mae Caerdydd yn ddinas fawr yn y DU ac un sy'n haeddu hwb trafnidiaeth canolog sy'n gyfartal ag unrhyw ddinas graddi arall yn y DU. Ac er gwaethaf gofyn am gyfarfod brys, rwy'n drist dweud nad yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ymateb i'r cais hwnnw eto.

<u>Cwestiwn atodol:</u> *Y Cynghorydd Sir Dilwar Ali*

Oes gennych unrhyw amserlenni tra fyddwch yn derbyn ymateb gan Lywodraeth Cymru?

<u>Ymateb:</u> *Y Cynghorydd Sir Bale*

Yn amlwg, dyma fater y mae Aelodau Cabinet, Swyddogion yn parhau i lobio'r llywodraeth i sicrhau y gallwn wneud gynnydd ar y mater hwn. Ac rwy'n meddwl ei bod yn eithriadol bwysig bod Llywodraeth y DU yn parhau i wneud deialog. Mae Network Rail yn gweithio gyda'r Cyngor a phartneriaid eraill i geisio datblygu cynnig. Ac mae'n bwysig ein bod yn datblygu achos busnes, gan fod cyfnodau ariannu llym iawn ar gyfer buddsoddiad Network Rail ac mae'n bwysig iawn nad ydym yn methu'r amserlenni hyn.

<u>Cwestiwn atodol:</u> *Y Cynghorydd Sir Walker*

Ydy'r Arweinydd yn sylweddoli, pe bai'n cyflawni rôl llai gwrthwynebol gyda'r Ysgrifennydd Gwladol a'r llywodraeth genedlaethol, y gallai gyflawni rhywbeth? Rwy'n credu'r cyfan mae'n ei wneud yw tanio ergyd yn eu cyfeiriad nhw yna'n cwyno nad yw'n rhan o wneud penderfyniadau. Rwy'n awgrymu ei fod yn cysylltu â Rightacres ac yn gofyn iddynt am y datblygiad diweddaraf y gofynnwyd iddynt ei baratoi ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol.

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Bale*

Rwy'n delio gyda Gweinidogion y Llywodraeth a chyda Rightacres ac rwy'n ymwybodol o'r gwaith eu bod yn parhau i'w wneud i drawsnewid y rhan honno'r ddinas gyda'r Cyngor. Ond rwyf dal heb glywed yn uniongyrchol gan Lywodraeth y DU. Nid oes gan bobl Caerdydd ymrwymiad cyhoeddus gan Lywodraeth y DU eto i gefnogi Network Rail o ran adeiladu'r orsaf hon.

Mae'n beth syml iawn i'w wneud. Os ydych yn meddwl mai dyna'n union mae'r llywodraeth yn mynd i'w wneud, yna gadewch i ni i gyd wneud hynny a gallwch gydweithio i'w gyflawni.

Cwestiwn: *Y Cynghorydd Sir Howells*

Sut mae'r Cyngor hwn yn gwerthuso a mesur llwyddiant Vlog yr Arweinydd a gweithgarwch arall ar y cyfryngau cymdeithasol?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Bale*

Dyma gwestiwn eithaf diddorol, felly diolch yn fawr iawn am ei ofyn, y Cynghorydd Howells.

Yn ystod y mis diwethaf, gwyliodd 84,324 o bobl ein fideos ar yr holl sianeli cyfryngau cymdeithasol. Ac o'r rheiny, rwyf yn benodol falch o ddysgu mai fy "Vlog yr Arweinydd" ar y cynigion ar gyfer y gyllideb oedd fideo a wyliodd fwyaf yn 2017/18, gyda mwy na 16,000 o bobl yn ei gwylio.

Mae nifer y bobl sy'n defnyddio ein sianeli Twitter a Facebook yn tyfu, ac rwy'n gwybod bod hynny'n rhywbeth y mae ein tîm cyfathrebiadau'n gweithio'n galed i'w gyflawni, ac rwy'n rhoi iddo llawer o ganmoliaeth am y gwaith y mae'n ei wneud i ni.

Bob mis mae nifer y bobl sy'n defnyddio ein sianel Facebook wedi cynyddu 23.7% ac mae nifer y bobl sy'n defnyddio ein sianel Twitter hefyd wedi cynyddu 44.3%.

Cwestiwn atodol: *Y Cynghorydd Sir Howells*

Rwy'n falch o weld eich bod yn monitro'r cynnydd ar y vlog. Rwyf wedi sylwi'n ddiweddar y gwnaethoch chi un ar agor Hwb Gabalfa/Ystum Taf, ac ynddi dangosodd y Cynghorydd Lleol, y Cynghorydd Dilwar Ali a gwnaethoch roi iddo'r cyfle i ymddangos wrth eich ochr chi.

Gaf i ofyn a fydd y cyfle hwnnw i ymddangos ochr yn ochr â chi yn eich vlogs yn cael ei estyn i Gynghorwyr eraill? Oherwydd rwy'n siŵr fel Arweinydd y Cyngor, y byddech

am hyrwyddo gwaith da Cynghorwyr ar bob ochr, ni waeth eu crefydd gwleidyddol a ddim yn dyrchafu'n annheg Cynghorwyr o un plaid penodol.

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Bale*

Os edrychwch yn ôl at yr holl wahanol unigolion rwyf wedi siarad â nhw, rydym wedi cael ystod wych o bobl ac rwy'n cofio fy vlog cyntaf gyda phobl sy'n ymgysylltu â'r Tŷ Chwaraeon a'r cynnig yn Stadiwm Rhyngwladol Caerdydd.

Felly, pe baech wedi bod yn nigwyddiad agor yr hwb yna efallai y gallwn fod wedi gofyn sawl cwestiwn i chi hefyd.

Ond rwy'n dechrau cymryd rhan mewn rhywbeth o'r enw Facebook Live, ac os oes unrhyw awgrymiadau eraill sy'n gan bobl o ran cyrraedd pobl yn y ddinas, rwy'n fwy na hapus i ymgysylltu â'r rheiny. Oherwydd mae mor bwysig ein bod ni fel Aelodau Etholedig yn mynd allan a chysylltu â'r cyhoedd ar y materion sy'n bwysig iddynt.

Cwestiwn atodol: *Y Cynghorydd Sir Cowan*

Mae'n ymddangos bod nifer o negeseuon wedi'u noddi ar Facebook yn y misoedd diweddar, ac rydym yn nodi i chi ddileu neges ar Facebook a Twitter gan ei bod yn hyrwyddo Ymgeisydd Llafur datganedig. Gwelon ni ond yr wythnos hon fod neges ar Facebook gan y Cynghorydd Bradbury a chydweithiwr yn ei ward hefyd. Ond nid ydym yn gweld unrhyw o'r gwrthblaid neu ni i gael y cyfle hwn i ddweud ein dweud

Felly'r Swyddogion sy'n gyfrifol, yn wir. Yn amlwg, bydd Purdah yn dechrau ddydd Gwener. Allwch chi roi sicrwydd i ni y caiff popeth ei fonitro'n agos fel na ellir canfod bod unrhyw beth yn rhoi mantais gwleidyddol i unrhyw un ar y cam hwn?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Bale*

Wel, nid wyf yn siŵr beth arall y gallaf ei ychwanegu at y pwynt hwnnw o esboniad personol. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn ailadrodd nad oes gennyf yr amser i eistedd wrth ddesg a phenderfynu beth sy'n cael ei gyhoeddi a beth nad yw'n cael ei gyhoeddi gan y Cyngor. Ond gallaf roi sicrwydd i chi, a byddwch yn ymwybodol, fod canllawiau cyn etholiad wedi'u cyhoeddi i Aelodau, bod gan Swyddogion gyfrifoldebau yn ystod cyfnod yr etholiad, ac rwy'n credu y bydden ni i gyd yn disgwyl i'r Cyngor ddilyn y rheolau hynny.

Cwestiwn: *Y Cynghorydd Sir Robson*

Fyddai'r Aelod Cabinet Llafur yn cefnogi symud i sicrhau bod yr holl Gynghorwyr yn talu eu Treth Gyngor yn uniongyrchol o'u Lwfansau i Gynghorwyr?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Hinchey*

Fel llawer o drigolion eraill yn y ddinas hon, byddwn yn annog Aelodau i dalu eu Treth Gyngor trwy Ddebyd Uniongyrchol, gan mai hon yw'r ffordd fwyaf cost-effeithiol i drigolion dalu eu Treth Gyngor. Mae dewis o pedwar dyddiad talu gwahanol ar gael, a gellir sefydlu Derbyd Uniongyrchol yn hawdd ar-lein neu dros y ffôn.

Fodd bynnag, nid fy mwriad yw ymyrryd â threfniadau ariannol personol unrhyw unigolyn.

<u>Cwestiwn atodol:</u> *Y Cynghorydd Sir Robson*

Ar 5 Chwefror eleni, adroddodd BBC Wales fod bron i 400 o negeseuon atgoffa wedi'u hanfon at Gynghorwyr ledled Cymru sydd mewn dyled, a rhai gan fwy na £1000, er 2011. Gwnaethon nhw roi resymau amrywiol mewn ymateb i beidio â thalu, ond ni wnaeth Caerdydd, Sir Gaerfyrddin a Gwynedd ymateb i gais Rhyddid am Wybodaeth y Cyngor. Ac ar wefan BBC oedd hynny.

Yn sgil hyn, fyddech chi'n ymrwymo i roi'r wybodaeth honno i'r BBC, rwy'n sicr y byddai o ddiddordeb i holl ddinasyddion Caerdydd a hefyd efallai edrych ar a oes unrhyw ffordd y gallen ni annog Aelodau i gael gostyngiad ar eu Lwfans i Gynghorwyr yn awtomataidd i dalu eu Treth Gyngor fel na fyddai sefyllfaoedd megis y rhai wedi'u hadrodd ar wefan y BBC yn codi yng Nghaerdydd ac na fyddai angen i ni gadw data?

<u>Ymateb:</u> *Y Cynghorydd Sir Hinchey*

Gallaf ddweud wrthych fod gwiriad fel arfer yn cael ei wneud gan Swyddogion cyn i ni wneud y ddadl ar y gyllideb, fel rydych yn gwybod, i sicrhau y gall pobl bleidleisio a'u bod yn gymwys i wneud felly. A dyna fel roedd hi yn achos busnes y mis diwethaf. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw Gynghorwyr na effeithiwyd arnynt gan yr arian hwnnw heb ei dalu, fel y dywedoch.

Nid wyf yn gweld problem yng Nghaerdydd ond, o'm rhan i, ni fyddwn yn ymyrryd o hyd â threfniadau ariannol personol pobl. Rwy'n credu i fi fel nodyn personol, fod hynny'n mynd yn rhy bell. Mae gan bobl drefniadau gofalu. Mae ganddynt ymrwymiadau ariannol eraill. Mae'r Dreth Gyngor ond yn un o'r ymrwymiadau hynny hefyd. Fel i fi ar sail bersonol, byddwn yn dweud na, ni ddylwn i ymyrryd.

<u>Cwestiwn:</u> *Y Cynghorydd Sir Mitchell*

Pa effaith fydd cynlluniau Llywodraeth y DU roi terfyn ar fudd-daliadau tai ar gyfer pobl da 22 oed ei chael ar ffigurau digartref yng Nghaerdydd?

<u>Ymateb:</u> *Y Cynghorydd Sir Elsmore*

Mae'n eithriadol anodd i ni ddweud pa pobl ifanc y effeithir arnynt gan y diwygiad hwn.

Bydd y newidiadau wedi'u cynllunio ond yn effeithio ar hawlwyr Credyd Cynhwysol newydd ar ôl i'r gwasanaeth digidol Credyd Cynhwysol gyrraedd Caerdydd ym mis Chwefror y flwyddyn nesaf.

Caiff pobl ifanc 18-21 oed sydd eisoes yn derbyn Budd-dal Tai, Costau Tai Credyd Cynhwysol eu diogelu.

Yn anffodus, er, mae’r posibilrwydd o ddrysu pobl ifanc o ystyried cymhlethdod y rheoliadau’n achos pryder sylweddol, a dyma pam bod Swyddogion a finnau’n benderfynol y gallwn leihau’r effaith lle bo’n bosibl.

Cwestiwn atodol: *Y Cynghorydd Sir Mitchell*

Allwch chi roi sicrwydd i ni, felly, na effeithir ar y strategaeth ddigartrefedd wych hon rydym wedi’i chreu yn yr un modd gan y ddeddfwriaeth newydd hon?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Elsmore*

Na, yn sicr. Rwy’n meddwl, gan eich bod wedi cyfeirio at y strategaeth cysgwyr ar y stryd, sy'n rhan o'r holl bethau rydym yn eu gwneud i sicrhau ein bod yn terfyn ar gysgu ar y stryd, ond i sicrhau bod gennym y ffigurau lleiaf o bobl ifanc sy'n ddigartref. Mae gennym wasanaeth da iawn, iawn o ran porth i bobl ifanc, sy’n effeithiol iawn.

Cwestiwn: *Y Cynghorydd Sir Sanders*

Rwy'n darllen gyda diddordeb twît Newyddion BBC Cymru (ar 19 Mawrth) ynghylch £600k gan dreftadaeth Cynghrair y Pencampwyr a fydd, yn unol â’r adroddiad gael ei ddyrannu i uwchraddio parciau Caerdydd. Rwy’n cytuno’n llwyr â’r sylw “gall ansawdd cyfleusterau cyhoeddus gael effaith ar bobl sy’n ymarfer corff...”

Allech chi gadarnhau pa fannau agored mewn ardaloedd yn y ddinas yn cael eu huwchraddio a pha feini prawf a ddefnyddiwyd wrth benderfynu ar y rheiny?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Bradbury*

Roedd erthygl y BBC wedi drysu. Byddwn yn mynd mor bell i ddweud ei fod yn newyddion ffug, yn wir.  Bydd Aelodau yn ymwybodol fod buddsoddiad ychwanegol o £300k wedi bod yng nghyllideb 17/18. Nid yw hynny’n gysylltiedig â threftadaeth Cynghrair y Pencampwyr. Dyna gyswllt y mae’r BBC wedi’i wneud eu hunain.

Mae'r rhesymeg ar gyfer y buddsoddiad hwn mewn cyfleusterau ystafell newid wedi’i gysylltu â chyfleusterau sy’n parhau i fod yn gyfleusterau aml-chwaraeon mawr sy’n cael yr effaith fwyaf o ran nifer y bobl sy’n chwarae ac yn cymryd rhan – y cyfleusterau sy’n newid a nodwyd oedd Tir Hamdden Tredelerch a Pharc Trelai. Mae buddsoddiad mewn draenio caeau hefyd wedi’i gynllunio ar gyfer Caeau Chwarae Draenen Pen-y-graig, lle nad yw cyflyrau cyfredol yn galluogi'r clwb sy'n chwarae yno i gyflawni eu rhestr gosodiadau.

Gellir dyrannu gweddill y swm a adroddwyd i’r prif agweddau – y £300k arall rydym yn sôn amdano – trwy’r Raglen Gyfalaf ac arian Adran 106 a fydd yn talu am waith i adnewyddu meysydd chwarae mewn wyth lleoliad o gwmpas y ddinas. Ac yn rhan o gylch gwaith y Cynghorydd Derbyshire y mae hynny.

Cwestiwn atodol: *Y Cynghorydd Sir Sanders*

Rwy’n credu mai'r hyn rydych yn ei ddweud yw nad arian treftadaeth Cynghrair y Pencampwyr oedd y £600k a adroddwyd gan y BBC. Felly, byddaf yn taflu A a B i mewn. Felly, beth yw cyllid treftadaeth Cynghrair y Pencampwyr? A fy mhryder yw nad yw’n cael ei wario ar gyfleusterau chwaraeon yn unig, er eu bod yn bwysig, ond dim ond ar fannau agored gwyrdd fel y defnyddir cyfleusterau awyr agored eraill, megis meysydd chwarae i blant yn llwyr. Ac, yn amlwg, mae gennym lawer o’r rheiny yn Rhiwbeina. Roedd yn rhaid i mi gynnwys hynny ar y diwedd.

<u>Ymateb:</u> *Y Cynghorydd Sir Bradbury*

Mae Parc Caedelyn yn eich ardal chi sy’n fan hyfryd a gwych, sydd wedi'i etifeddu gan y trydydd tîm gorau yng Nghaerdydd, ar ôl Caerau a St Alban, yng Nghlwb Rygbi Rhiwbeina. Ac maent wedi cael buddsoddiad sylweddol yno, sy’n wych i’r ddinas.

Mae cyllid treftadaeth Cynghrair y Pencampwyr yn cyfrannu arwyneb 3G i'w osod mewn parc mewn ardal o amddifadiad.  Felly maent wedi dewis lle mae hynny’n mynd, ac mae wedi'i fuddsoddi yn Nherddi'r Faenor a gweithir ar hynny ar hyn o bryd.

Cyhoeddodd UEFA, rwy’n meddwl, ddatganiad i’r wasg yn dweud hyn. Roedd gan BBC ein datganiad i'r wasg. Maent wedi rhoi dau a dau ynghyd ac wedi sôn am dreftadaeth Cynghrair y Pencampwyr. Mae meysydd chwarae cyhoeddus unrhyw le a chyfleusterau chwaraeon unrhyw le, ledled y ddinas yn bwysig p’un a ydynt yn y gogledd, y gorllewin, y de neu’r dwyrain, ac rwyf wedi ymrwymo i wella cyfleusterau chwaraeon, o fewn cyfyngiadau cyllideb sydd gennym, cymaint ag y gallwn ledled y ddinas.

<u>Cwestiwn atodol:</u> *Y Cynghorydd Sirol Bridges*

Mae sôn bod pont dros dro arbennig, yn rhan o baratoi ar gyfer ffeinal Cynghrair y Pencampwyr, yn mynd i gael ei hadeiladu ar draws Stryd y Castell  fel y gall oligarchiaid lanio eu hofrenyddion ym Mharc Bute ac yn cerdded i Stadiwm y Mileniwm heb raid ddod yn agos at hoi polloi.

Hoffwn feddwl nad yw hynny’n wir. Ond trwy wybod sut mae UEFA yn gweithio, roeddwn am ofyn i chi a oeddech yn gallu stopio’r sôn hwnnw’n swyddogol.

<u>Cwestiwn atodol:</u> *Y Cynghorydd Sir Bradbury*

Ni allaf sylwi gan ei fod yn ddigwyddiad UEFA ac mae unrhyw beth sy’n mynd trwy yn mynd trwy UEFA a’n tîm digwyddiadau. Nid yw'n rhywbeth bod gennyf wybodaeth bersonol ohono.

<u>Cwestiwn:</u> *Y Cynghorydd Sir Boyle*

Er mwyn gwneud atgyweiriadau trydanol yn nhair ysgol uwchradd yn y ddinas, rhaid i’r Cyngor ddod o hyd i £3.8m o gyfalaf ychwanegol a £2.85m o wariant refeniw, cyfanswm enfawr o £6.65m. Mae hyn yn codi nifer o gwestiynau am o le y caiff yr arian ei ddargyfeirio. Yn benodol, pa gynlluniau adnewyddu asedau wedi’u cynlluniau ar gyfer 2017/18 fydd yn mynd yn eu blaenau?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Merry*

Mae’n dweud llawer am gyflwr wedi'i etifeddu ysgolion yng Nghaerdydd yr oedd yn rhaid wynebu'r sefyllfa hon hyd yn oed gyda rhaglen fuddsoddi ysgolion o £165m. Ac wrth gwrs, nid oedd unrhyw gynlluniau gan y weinyddiaeth am ysgol uwchradd newydd yn y gorllewin, rydym yn eu cyflawni.

Telir yn rhannol am y gwariant ychwanegol gan arbedion effeithlonrwydd o’r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ac ailbroffilio’r dyraniadau adnewyddu asedau.
Mae’r rhaglen adnewyddu asedau ar gyfer 2017/18 yn cael ei chynllunio ar hyn o bryd a chaiff projectau eu cyhoeddi yn y dyfodol agos.

Cwestiwn atodol: *Y Cynghorydd Sir Boyle*

Yn 2006, roedd cyfle i bleidleisio ar gynllun trefniadaeth ysgolion a fyddai wedi creu £300m ar gyfer adnewyddu asedau ledled y ddinas. Pleidleisiodd pleidiau penodol yn erbyn hynny.

Fodd bynnag, gadewch i ni symud at y ffigurau hyn. Mae’r ffigurau hyn yn frawychus. £6.5m. Digwyddodd y problemau trydanol ym mis Ionawr. Ni roddwyd gwybod i Blant a Phobl Ifanc, PRAP neu’r Cyngor amdanynt yn ystod trafodaethau am y gyllideb. Tybed na chafodd y ffigurau hyn eu cynnwys neu’u rhyddhau neu o leiaf eu datgelu’n rhannol yn y gyllideb.

A thybed a ydyn ni wedi gwneud arolygon llawn ac yn gallu gwarantu nad oes unrhyw ysgolion eraill ledled y ddinas a allai gael problemau trydanol tebyg.

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Merry*

Rwy’n credu bod yr arolygon hyn bron wedi’u cwblhau, ac rwyf wedi cael sicrwydd bod y ffigurau hynny ar gael.

Rwy’n mynd i gam-drin fy rôl y mae ychydig. Rwy’n meddwl, yng ngolwg y ffaith ein bod wrthi – neu Swyddogion – yn gwneud arolygon cyflwr ar gyfer band-B ym mhob rhan o'n hystâd ysgolion, fod beth bynnag y mae'r weinyddiaeth, ar ôl i'r cynigion hyn gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru, fod angen, yr amser honno, i'r weinyddiaeth edrych ar sefyllfa gyffredinol ein hysgolion yng Nghaerdydd a rhaid i ni fuddsoddi'n iawn yn yr adeiladau ysgol hynny. A byddai’n ymddangos ei fod yn gyfle delfrydol i'w wneud.

Cwestiwn atodol: *Y Cynghorydd Sir Dianne Rees*

Ond allwch chi roi sicrwydd i ni nad yw'r arian hwn yn cael ei ddargyfeirio o'r 13 ysgol, oedd yn ysgolion ffydd yn y ddinas yn bennaf, oedd ym mand B rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ac yn edrych ymlaen at uwchraddio eu hystâd? Maent newydd gael gwybod nad yw'r gwaith i’w gwella'n mynd yn ei flaen fel y bwriad.

Allwch chi roi sicrwydd i ni nad o’r 13 ysgol hynny’n benodol y mae’r arian yn cael ei ddargyfeirio?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Merry*

Rwy'n meddwl bod graddau dros gyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B. Hynny yw'r cyfeiriad y gwnes i ato, oherwydd arbedion effeithlonrwydd wedi'u cyflawni, rydym wedi gallu defnyddio rhywfaint o'r arian sydd wedi'i neilltuo ar gyfer y cronfeydd wrth gefn. A chan fod y cynlluniau'r symud yn eu blaenau'n dda, rhywfaint o'r arian o'r cronfeydd wrth gefn rydym yn ei ddefnyddio ar brojectau sydd wedi datblygu'n dda.

Cwestiwn: *Y Cynghorydd Sir Hudson*
Faint o iawndal sydd wedi'i dalu i drigolion oherwydd lonydd bysus a chilfachau parcio wedi'u gosod ar:

a) Heol y Gogledd
b) Caerphilly Road
c) Manor Way

A beth oedd y swm unigol uchaf sydd wedi'i dalu?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Hinchey*

Gall trigolion y mae gwaith gwella priffyrdd wneud cais am iawndal dan Ran 1 Deddf Iawndal Tri 1973, ond mae'n rhaid iddynt aros am flwyddyn ar ôl i'r ffordd gael ei mabwysiadu a'i defnyddio gyntaf.

Gallaf gadarnhau nad oes unrhyw ceisiadau wedi'u cyflwyno i'r Cyngor mewn perthynas â'r cynlluniau hyn.

Cwestiwn atodol: *Y Cynghorydd Sir Hudson*

Mae gennyf brawf bod un cwpl, sy'n byw yn North Road, weld £3000 o iawndal. Sut rydych chi'n egluro hynny, os gwelwch?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Hinchey*

Os oes tystiolaeth gennych, rwy'n fwy na hapus i weld y dystiolaeth honno, y Cynghorydd Hudson.

Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw seilwaith neu faint o'r ffordd sydd wedi'i newid yn Heol y Gogledd, yn enwedig yn ein hwardiau, ond os oes tystiolaeth gennych i'r wrthwyneb, rwy'n fwy na hapus i edrych arni a rhoi ymateb i chi yn ysgrifenedig.

Cwestiwn: *Y Cynghorydd Sir McGarry*

Beth yw cynlluniau'r weinyddiaeth i fynd i'r afael â chysgu ar y stryd yng Nghaerdydd?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Elsmore*

Bydd Aelodau'n ymwybodol i'r Cabinet gymeradwyo'r Strategaeth Gysgu ar y Stryd yr wythnos ddiwethaf. Byddwn yn dweud mai dyma weledigaeth fwyaf uchelgeisiol Caerdydd a gweledigaeth fwyaf uchelgeisiol unrhyw ddinas yn y DU i roi terfyn ar gysgu ar y stryd – ac mae'r geiriau nesaf yn bwysig iawn – trwy weithio ochr yn ochr â phartneriaid yn ystod y tair blynedd nesaf.

Ein nod yw mynd i'r afael â y nifer cynyddol o unigolion sy'n cysgu ar y stryd, a'r amgylchiadau cymhleth yn mae pobl yn canfod eu hunain ynddynt trwy nodi ymrwymiadau uchelgeisiol, gan gynnwys gweithio tuag at "Dim Noson Allan Gyntaf" i'r bobl hynny sy'n defnyddio gwasanaethau.

Ni allwn ni wneud hyn ar ein pennau ein hunain, fel rydych yn gwybod, ond rwy'n credu trwy adeiladu ar y partneriaethau gwych sydd ar waith, gallwn wneud iddo ddigwydd.

<u>Cwestiwn atodol:</u> *Y Cynghorydd Sir McGarry*

Allwch chi gadarnhau pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth yn y strategaeth?

<u>Ymateb:</u> *Y Cynghorydd Sir Elsmore*

Yn sicr, a thra fy mod i yma, ac o ran ceisio sylw yr hyn sy'n fater pwysig iawn iawn. Rwyf am dalu teyrnged i'r Swyddogion sydd wedi gwneud cymaint o waith o ran y strategaeth hon.

Rwyf hefyd am dalu teyrnged i un Aelod annibynnol ar ein meinciau, y Cynghorydd Eleanor Sanders. Mae hi wedi arwain cyfraniad y gymuned ffydd mewn modd prydferth ac aruthrol ac rwyf am ddiolch iddi'n bersonol am hynny.

<u>Cwestiwn:</u> *Y Cynghorydd Sir Carter*

Pa gynlluniau sydd gan y Cyngor i inswleiddio'r ystadau gweddilliol ym Mhentwyn a Llanedern nad os waliau dwbl ynddynt?

<u>Ymateb:</u> *Y Cynghorydd Sir Elsmore*

Fel y byddwch yn gwybod, mae nifer sylweddol o eiddo preifat ac eiddo'r Cyngor yn yr ardaloedd y sonioch amdanynt eisoes wedi'u hinswleiddio trwy ddefnyddio inswleiddio waliau allanol, gan gynnwys ystadau Bryn Celyn a Bryn Fedw.

Ariennir gwaith i inswleiddio eiddo heb waliau dwbl, rwy'n credu eich bod yn gwybod fodd bynnag, trwy Arbed, cynllun Cartrefi Twym Llywodraeth Cymru, gydag arian cyfatebol gan y Cyngor.

Mae gwaith yn parhau i sicrhau y byddwn mewn sefyllfa dda i wneud cais am y cyllid newydd ei gyhoeddi, cyn gynted ag y derbynnir canllawiau manwl.

<u>Cwestiwn atodol:</u> *Y Cynghorydd Sir Carter*

Fel y dywedoch, mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi bod yn ddefnyddiol iawn ac gwnaeth wahaniaeth enfawr i fywydau pobl sy’n byw yn yr ystadau hynny, ym Mryn Fedw yn ddiweddar.

Nid ydyn ni, yn y rownd gyfredol yn y flwyddyn ddiwethaf, wedi bod yn llwyddiannus fel ward o ran cael cyllid gan y gronfa benodol honno. A thybed, nawr bod gennym fwy o bwerau fel Cyngor dros y Cyfrif Refeniw Tai, a allwch chi ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio rhywfaint o’n cronfeydd ein hunain yn yr ardal mewn ffordd, cyn y newidiadau Cyfrif Refeniw Tai, na allen ni. Felly a allech chi edrych i mewn i’r mater hwn a gweld beth sy’n bosibl?

<u>Ymateb:</u> *Y Cynghorydd Sir Elsmore*

Byddwch yn gwybod y byddwn mor bryderus â chi fod ein holl gartrefi yng Nghaerdydd yn dwym.

<u>Cwestiwn:</u> *Y Cynghorydd Sir Cowan*

Mae’r cyhoeddiad y bydd wardiau allanol y ddinas yn destun "sesiwn lanhau dwfn" gan adran lanhau'r Cyngor yn hir-ddisgwyliedig ond gwrthodwyd ceisiadau blaenorol gan ofynnwyd i aelodau lleol.

Mae cyfarwyddyd bellach wedi'i roi fod yn rhaid i'r ymarfer hwn gael ei gwblhau cyn yr etholiadau ar 4 Mai, gan wneud gweithio ar Wyliau'r Banc ac ar y penwythnos yn angenrheidiol at gost ychwanegol enfawr posibl i drethdalwyr. Bydd ward Llanisien yn derbyn y driniaeth hon ar y noson cyn y bleidlais ac ar y diwrnod pleidleisio ei hunain.

Pam sydd wedi rhoi’r cyfarwyddyd hwn, pam mae angen iddo gael ei gwblhau cyn yr etholiad, a phwy sydd wedi penderfynu y dylai Llanisien gael ei lanhau’n ddwfn cyn yr etholiad ac ar ddyddiad yr etholiad ei hunain?

<u>Ymateb:</u> *Y Cynghorydd Sir Derbyshire*

I ddechrau, targedwyd yr ymgyrch lanhau dwfn wardiau mewnol y ddinas o ganlyniad i alw uchel yn yr ardaloedd hynny. Derbyniodd y gwaith hwn adborth cadarnhaol gan Aelodau a dinasyddion lleol a derbyniwyd ceisiadau canlynol gan Aelodau lleol am ymgyrch lanhau dwfn mewn wardiau allanol.
Ar ôl cymeradwyo bod cyllid ar gyfer ymgyrchoedd glanhau dwfn yn cael ei gynnwys yng nghyllideb sylfaenol y Gwasanaethau Cymdogaeth ar gyfer 2017/18. Nododd swyddogion gyfle i greu rhaglen waith ar gyfer y wardiau allanol.

Datblygodd swyddogion y Gwasanaethau Cymdogaeth gynllun i sicrhau bod yr holl wardiau allanol yn cael eu cynnwys yn y rhaglen. Nid oes rheswm penodol pam ychwanegwyd y wardiau at y rhaglen yn y drefn iddynt ymddangos. Gwnaethpwyd yr holl benderfyniadau ar lefel weithredol. Yn gyffredinol, roedd swyddogion am sicrhau bod pob ward yn derbyn yr un swm o wasanaethau yn y cyfnod hwn ac ni eithriwyd dim un ohonynt.

Cwestiwn atodol: *Y Cynghorydd Sir Cowan*

Gan nad oes cyfyngiad amser yn hyn o beth Ydych chi'n credu ei bod yn deg y dylen ni fod yn talu cydweithrediadau hyd at £20 yr awr ar ŵyl y banc? Ac ydych chi'n credu bod hyn yn ddefnydd da o arian trethdalwyr? Gan fy mod i'n credu i'r e-bost y derbynion ni ddweud bod yn rhaid ei wneud cyn yr etholiad. Ond mae'r Cyngor yn parhau i redeg ar ôl yr etholiad, pwy bynnag sy'n rhedeg sy'n rhan o'r Cyngor. Felly ydych chi'n credu bod £20 yr awr i dalu cydweithrediad ar ŵyl y banc yn ddefnydd da o arian trethdalwyr?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Derbyshire*

Mae'n ddiddorol eich bod yn dweud hynny. Yn amlwg, mae'n ymddangos bod eich cwestiwn yn cyfeirio at y ffaith eich bod yn credu bod rhywfaint o ymyrraeth wleidyddol yn y broses. Rhaid i mi gyfaddef. Roedd rhywfaint o ymyrraeth wleidyddol.

Daeth swyddogion ataf gan ddangos rhestr i mi a disgwyliwyd i bob ward ac e thrio un gael eu glanhau cyn yr etholiad. Ond oherwydd y Pasg, ni allwn ni ffitio un ward i mewn. Dyfalwch pa ward oedd hwnnw? Rhiwbeina. Felly dywedais atynt, "wel, arhoswch funud. Rwy'n credu y byddai bach yn annheg eithrio Rhiwbeina cyn yr etholiad oherwydd y gall Cynghorwyr lleol gael eu cynhyrfu gan hynny." Felly dywedais "gadewch i ni ymgorffori Rhiwbeina a gweithio gwyliau banc y Pasg i wneud hynny."

Fodd bynnag, rwy'n fwy na hapus i fynd yn ôl i Swyddogion i ddweud "mae'n ddrwg gennyf, mae Cynghorwyr Rhiwbeina wedi dweud wrthyf eu bod yn fwy na hapus gwneud y ward ar ôl yr etholiad ac ni fydd yn rhaid iddynt weithio gŵyl banc y Pasg." Rhowch wybod i mi.

Cwestiwn atodol: *Y Cynghorydd Sir Carter*

Ni waeth yr agweddau yma a pham, rydym yn ddiolchgar, rwy'n meddwl, fel grŵp o wardiau yng nghylch allanol y ddinas i chi am ein cymryd o ddifri, yn wir, ac yn dod i'n hwardiau. Yn bendant o safbwyntiau Pentwyn, teimlon ni y cawson ni ein gadael allan o'r ymgyrch lanhau dwf, felly roeddwn yn ddiolchgar iawn i chi am fuddsoddi hyn hynny.

Ond ydych chi'n cytuno gyda mi eu bod yn ymddangos i'n trigolion, boed ym Mhentwyn, boed yn Nhredelerch, ei bod braidd yn amheus bod sedd yr Arweinydd yn cael ei wneud ar y diwrnod pleidleisio? Rwy'n derbyn y rhesymeg rydych wedi'i roi i ni, ac rwy'n siŵr bod hynny'n berffaith ddiffuant, ond mae bach yn amheus. Dyna ein pryder ni.

Felly, diolch am eich sicrwydd, ond efallai os gallwch fynd â hynny'n ôl i Swyddogion wrth gynllunio'r pethau hyn yn y dyfodol efallai y bydd osgoi diwrnod pleidleisio'n syniad da.

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Derbyshire*

Os ydych yn meddwl amdano, mewn gwirionedd, mae'r Arweinydd a'i ward yn cael ei anablu ganddo o ran yr hyn rydych yn meddwl amdano'n awr, mae'r rhan fwyaf o bleidleiswyr yn rhai trwy'r post yn aml. Bydd y pleidleiswyr trwy'r post yn postio eu pleidleisiau amser hir cyn diwrnod yr etholiad. Felly, mew gwirionedd, gallai Llanisien fod a rei golled o ganlyniad i hynny. Felly os ydych am swapio gyda Llanisien a mynd yn olaf a methu'r pleidleiswyr trwy'r post hynny, rhowch wybod i mi.

<u>Cwestiwn:</u> *Y Cynghorydd Sir Keith Jones*

All yr Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd restru buddion yr ymgyrch lanhau dwfn sydd i ddod yn Llanrhymni?

<u>Ymateb:</u> *Y Cynghorydd Sir Derbyshire*

Bydd pob ardal y'i nodir yn y rhaglen ddau ddiwrnod yn cael ei glanhau'n ddwfn. Bydd buddion yn cynnwys ysgubo sianeli, gwaredu chwyn, torri planhigion wedi gordyfu ar dir y Cyngor, a rhoi gwybod am faterion graffiti i'w gwaredu. Hefyd caiff gyliau eu glanhau gan beiriant sugno gyliau dynodedig a thîm â dau ddyn.

O ran glanhau wardiau allanol, gofynnwyd i gynghorwyr lleol a oes unrhyw ardaloedd penodol y mae angen sylw arnynt, ac rwy'n gwybod eich bod wedi bod yn awyddus iawn i ddod yn ôl a rhoi gwybod i ni pa ardaloedd y mae'r rheiny, a felly rydych wedi gofyn i ni ganolbwyntio ar ardaloedd â llawer o ymwelwyr megis siopau Countisbury Avenue, Llanrumney Avenue, a Burnham Avenue ynghyd â strydoedd wedi'u nodi megis Uphill Road, Shaw Close, Browning Close, Dunster Road, a Ridgeway Road.

O ganlyniad i amerlenni tynn, cedwir unrhyw ardaloedd na eir i'r afael â nhw yn y cylch cychwynnol ar gofnod ac eir yn ôl atynt yn hwyrach yn y flwyddyn. Mae gwaith gwirfoddolwyr er, dylwn i ychwanegu, yn yr ymgyrch "Caru Eich Cartref" hefyd wedi bod yn bwysig iawn yn y cylch cyfan hwn. Ac rwy'n siŵr y bydd cymuned Llanrhymni hefyd yn dod ynghyd i'n cefnogi yn yr ymgyrch ddinas gyfan hon i lanhau ein strydoedd a'n cymdogaethau.

<u>Cwestiwn atodol:</u> *Y Cynghorydd Sir Keith Jones*

Er bod gennym berthynas gweithio agos iawn, er efallai ddim mor agos â chi a'r Cynghorydd Cowan, bydd pobl Llanrhymni'n ddiolchgar am hyn, y ymgyrch lanhau dwfn, ac y strydoedd fydd yn lân iawn a'r nifer uchel o ymwelwyr. Ar ôl gwneud hynny, fydd adolygiad o'r llwyddiant? Oherwydd rwy'n siŵr y bydd yn llwyddiant enfawr. Ac a fydd ymdrechion yn y dyfodol o gadw hyn yn rheolaidd?

<u>Ymateb:</u> *Y Cynghorydd Sir Derbyshire*

Fydd ac wrth gwrs, yn ffodus, cytunon ni yng nghyfarfod y gyllideb y mis diwethaf, y methodd llawer o'r gwrthblaid draw fan yna y cyfle i bleidleisio arno yn anffodus – er nad nhw sydd ar fai, wrth gwrs – y byddai'r drefn honno'n parhau. Felly'r bwriad y bydd wardiau mewnol y ddinas yn parhau i fuddio fel y maent wedi gwneud yn y 12 mis diwethaf, ond hefyd y bydd cyfle arall o leiaf unwaith y flwyddyn, efallai dwywaith yn y flwyddyn ar gyfer y wardiau allanol hynny i fuddio hefyd. Felly bydd pawb yn fuddio o hyn.

<u>Cwestiwn atodol:</u> *Y Cynghorydd Sir Boyle*

Y broblem gyda glanhau dwfn yw, er y croesawir y gwaith hwnnw, ei fod yn awgrymu fod rhywbeth ddim yn gweithio gyda'r gwaith glanhau dyddiol, wythnosol a misol. Mae'n dda ddod i lanhau unwaith y flwyddyn, ond mae'n golygu nad yw rhywbeth yn gweithio yn ystod y 51 wythnos arall yn y flwyddyn. Felly beth mae angen i ni ei wneud i wella'r gwaith glanhau rheolaidd fel rydym yn osgoi'r angen am lanhau dwfn?

<u>Ymateb:</u> *Y Cynghorydd Sir Derbyshire*

Rwy'n credu bod yr hyn y mae angen i chi ei ddeall yw o ran glanhau dwfn, rydym yn edrych ar ardaloedd a fyddai fel arfer yn cael eu methu mewn trefn bob dydd arferol. Ac nid oes gennym yr adnoddau, yn anffodus, i fynd allan yn y ffordd honno. Os edrychwch ar beth sy'n digwydd pan mae glanhau dwfn yn digwydd, mae pobl yn mynd allan yn unigol, yn codi darnau bach na ellir eu cyrraedd mewn ffordd syml.

Felly y ffaith yw mai'r unig ffordd y gallwch wneud hynny yw drwy dargedu ardaloedd penodol ac yna ganolbwyntio arnynt bob tro. Mae'r rhain yn bethau sydd wedi cronni dros flynyddoedd, gan gynnwys, os meiddiaf ddweud hyn, tra bod eich gweinyddiaeth chi mewn grym. Nid brynti sydd wedi ymddangos mewn ychydig wythnosau ydyw, neu hyd yn oed chwe i ddeuddeg mis. Mae'n frynti sydd wedi ymddangos dros amser hir, hir.

Rydym yn ceisio targedu hynny oherwydd, os gallwch waredu hynny, yna bydd y chwyn hynny a'r pethau eraill sy'n tyfu, yn ei chael yn llawer anoddach oherwydd nid oes ganddynt unrhyw le i osod eu gwreiddiau yn ystod yr ychydig o fisoedd canlynol a rydych yn gobeithio wedyn, y bydd yn llawer haws i gadw'r ddinas yn lân yn y dyfodol.

<u>Cwestiwn:</u> *Y Cynghorydd Sir Simmons*

Allai'r Aelod Cabinet dros gymunedau rhoi diweddariad ar y cae 3G ym Mharc Trelái?

<u>Ymateb:</u> *Y Cynghorydd Sir Bradbury*

Yn amlwg, rwyf wrth fy modd dweud bod y cae 3G ym Mharc Trelái bron wedi'i gwblhau ac rydym ond yn aros i'r cyflenwad trydanol i gysylltu'r llifolau newydd â'r system fynediad trwy gatiau.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda chlybiau chwaraeon lleol, gan eu hymgysylltu â nhw i sicrhau bod gan glybiau cymunedol a rygbi flaenoriaeth o ran y safle. Ac rydych yn gwybod ein bod yn gwybod bod cyffro go iawn yng Nghaerau ac mae eisoes yn edrych fel y mae'r cae yn mynd i drawsnewid yr ardal a dyheadau'r gymuned chwaraeon lleol.

Hoffwn ddiolch i staff yn adran Barciau am wireddu hyn a phrojectau eraill ac am ddenu mwy na £400,000 o gyllid gan Gynllun Benthyciadau Cyfalaf Llywodraeth Cymru.

Rwy'n gobeithio ac yn rhagweld y bydd y cyfleuster ar agor erbyn diwedd y mis.

Cwestiwn atodol: *Y Cynghorydd Sir Simmons*
Fyddai'r Aelod Cabinet yn cytuno bod hyn yn gyfleuster chwaraeon gwych i gymuned Caerau?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Bradbury*

Byddwn yn cytuno, yn rhyfedd ddigon. Fel yr Aelod Cabinet, a chan fod gennyf rywfaint o ddiddordeb yn y project hwn fy hunan, byddwn yn cytuno'n bendant. Rydym wedi bod yn pledio dros hyn ers blynyddoedd ac rydym wedi defnyddio Adran 106 yn rhan o hyn ac rydym wedi defnyddio system Benthyciadau Cyfalaf Llywodraeth Cymru.
Rwyf hefyd wedi fy nghyffro'n fawr am ddatblygu system 3G, y cefais lun gyda hi a Chynghorwyr Grangetown y diwrnod o'r blaen yn y Farchnadfa. Rwyf hefyd yn falch bod 3G wedi'i gyflwyno diolch i Adran 106 ym Mhentwyn. Rwyf hefyd yn falch bod yr ystafelloedd newid wedi'u gwella ym Mharc Treláí. Canolfan Hamdden Tredelerch. Ac rwy'n gobeithio y gallwn ddod o hyd i rywbeth i adnewyddu'r ardal honno, Keith.

Mae'n bwysig. Mae chwaraeon yn ffordd bwysig o ymgysylltu pobl ifanc ac oddi ar, yn aml mewn ardaloedd megis ein un ni, ffyrdd gwahanol ac anodd iawn. Felly rwyf wedi fy nghyffro'n fawr amdano a boed fi neu rywun arall fydd yn gweithio gyda'r portffolio hwn, rwy'n credu y bydd ganddynt dreftadaeth dda yno iddynt.

Cwestiwn atodol: *Y Cynghorydd Sirol Howells*

A yw'r Aelod Cabinet wedi ystyried efallai rywfaint o gwnsela uniaethu rhyngddo a chydweithiwr ei ward. Oherwydd, yn amlwg, mae'r perthynas wedi torri i lawr cymaint bod angen iddi ddod i'r Cyngor i ofyn y cwestiwn hwn, yn enwedig gan roedd llun ohonynt ar y wefan ond pedwar diwrnod yn ôl yn trafod y mater dan sylw.

Felly beth sydd wedi newid yn y pedwar diwrnod diwethaf hynny?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Bradbury*

Nid wyf yn gwybod am eich perthynas gyda'ch cydweithiwr ward ond mae fy un fi yn dda iawn, iawn yng Nghaerau. Ac rwy'n credu ei bod yn bychanu'r rôl wych y mae'r Cynghorydd Simmons yn ei chwarae trwy ofyn Aeloda Cabinet sy'n gydweithiwr ei hward am fuddsoddiad yn ei hward. Mae ein perthynas yn wych. Gwrando, Nigel: mae ein perthynas yn mynd i barhau yng Nghaerau am lawer o flynyddoedd ar ôl mis Mai a thu hwnt.

Cwestiwn: *Y Cynghorydd Sir Stubbs*

Allai'r Aelod Cabinet roi diweddariad i ni ar y nifer cynyddol o dai'r Cyngor yn y ddinas?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Elsmore*
Mae Cartrefi Caerdydd yn rhaglen newydd a fydd yn darparu 600 o gartrefi Cyngor ledled Caerdydd.

Gofynnodd cydweithiwr cyferbyn am niferoedd o gartrefi ynghynt. Rwy'n synnu na wybuwyd bod sawl caniatâd cynllunio yn ei hward am nifer o unedau. Mae hynny eisoes wedi'i gymeradwyo.

Fodd bynnag, bydd y rhaglen, Cartrefi Caerdydd, yn darparu 1500 o gartrefi newydd, y bydd 600 ohonynt yn rhai fforddiadwy.

Mae pum cynllun eisoes wedi cael caniatâd cynllunio ond mae hyn ond yn rhan o'n hagwedd. Rwy'n hapus i ddweud mwy wrthych.

Cwestiwn atodol: *Y Cynghorydd Sir Stubbs*

I lawer o ni yn y siambr hon, mae cartrefi'r Cyngor wedi cael effaith trawsnewidiol ar ein teuluoedd a'u dyfodol posibl.

Mae bwriad y weinyddiaeth hon i adeiladu nifer mawr o gartrefi Cyngor yn symudiad enfawr a newid enfawr i'r diwylliant, newid enfawr o'r hyn rydym wedi'i weld gan y weinyddiaeth flaenorol. Nid yw hyn yn digwydd yn hawdd.
Faint o bobl sydd ar y rhestr aros tai yng Nghaerdydd?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Elsmore*

Mae'n ddyn y mae Sblot yn agos at ei galon ac mae am sicrhau – ac rydym wedi cael llawer o sgyrsiau – oni ydyn ni, y Cynghorydd ynghylch eich gwaith achos.

Bydd hyn yn gwneud realiti – mae rhestr aros tai y Cyngor wedi gostwng. Mae wedi bod ar bwyntiau amrywiol: 13,000, 11,000...ac mae bellach o dan 8,000. Mae hynny'n arwyddocaol iawn. Felly rydym yn gwybod chwe chartref cyngor newydd yn cael eu hadeiladu dan Gartrefi Caerdydd. Mae wyth safle arall sydd wedi'u nodi a fydd yn darparu 150 o gartrefi eraill. Rydym yn prynu cartrefi penodol oddi ar y farchnad i deuluoedd penodol. Efallai teuluoedd mawr y mae angen eiddo arnynt.

Felly rwy'n meddwl y gallaf ddweud, dros y blynyddoedd nesaf, y byddwn yn adeiladu tua 1,000 o gartrefi cyngor. Ac rwy'n meddwl ei bod yn werth cadw hynny mewn cof, yng nghanol y 80au pan gyflwynodd y Ceidwadwyr yr hawl i brynu, yng Nghaerdydd roedd gennym 25,000 o gartrefi cyngor. Heddiw mae gennym ychydig dros 13,000 Dychmygwch pe bai gennym y stoc hwnnw. Bydden ni'n gallu rhoi tŷ i bawb. Ni fyddai rhestr aros gennym ni. Rydym yn gwneud popeth i sicrhau y gallwn ni roi tŷ i bawb.

Cwestiwn atodol: *Y Cynghorydd Sir Robson*
Y Cynghorydd Elsmore, i gadarnhau, faint o gartrefi cyngor sydd wedi'u hadeiladu ers 2012? Er gwybodaeth.

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Elsmore*

1373 o ran unedau fforddiadwy. Rwy'n hapus iawn i roi'r wybodaeth i chi.

<u>Cwestiwn:</u> *Y Cynghorydd Sirol Groves*

Fydd y Cynghorydd Derbyshire yn rhoi diweddariad ynghylch toiledau cyhoeddus yn Yr Eglwys Newydd, yn dilyn deiseb a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Ionawr 2017?

<u>Ymateb:</u> *Y Cynghorydd Sir Derbyshire*

Mae'r Cyngor yn awyddus i weithio mewn partneriaeth â busnesau lleol a grwpiau cymunedol ledled y ddinas yn rhan o ddull cynaliadwy newydd o ddarparu cyfleusterau cyhoeddus.

Fel rydych yn gwybod, gwnes i gyfarfod â chi a'r Cynghorydd Evans ym Mhentref Yr Eglwys Newydd ar 9 Mawrth i drafod y mater hwn yn fanylach. Mae swyddogion hefyd wedi ymweld â'r toiledau nifer o fusnesau lleol yn ddiweddar a'u hasesu o ran hygyrchedd ac addasrwydd, yn Yr Eglwys Newydd a ledled y ddinas.

Yn Yr Eglwys Newydd, rydym yn gwahodd masnachwyr a busnesau lleol i gymryd rhan mewn astudiaeth beilota sy'n cynnwys darparu "Cynllun Gwobr Partneriaeth Cyfleusterau Cyhoeddus", gan gynnwys cynnig bwrsariaeth un tro o £100 i'r busnesau hynny sy'n cytuno i gymryd rhan yn y cynllun. Bydd hyn yn helpu i sicrhau eu cydweithrediad o ran agor eu toiledau am ddim i bobl nad ydynt yn gwsmeriaid a phobl sy'n cerdded heibio.

<u>Cwestiwn atodol:</u> *Y Cynghorydd Sirol Groves*

Ydych chi'n hyderus y ceir canlyniad llwyddiannus yn y dyfodol agos?

<u>Ymateb:</u> *Y Cynghorydd Sir Derbyshire*

Ydw, rwy'n hyderus. Rwy'n credu bod un neu ddau fusnes eisoes wedi dweud y byddant o bosibl yn cymryd rhan ac rwy'n credu ar ôl i un neu ddau gofrestru a hyrwyddo eu bod yn bobl gymunedol dda y bydd busnesau eraill yn cymryd rhan a gobeithio y gall hyn ledaenu ar draws y ddinas. Gall Yr Eglwys Newydd osod enghraifft dda a gobeithio y gall ardaloedd eraill wneud yr un peth. Gan ein bod ni i gyd yn gwybod, on'd ydyn ni, roedd y cyfleusterau oedd gennym yn gwbl anaddas. Ni chawsant eu defnyddio gan lawer o bobl fodd bynnag oherwydd roedd arnynt ofn eu defnyddio ac roedd yn ddrud i'w rhedeg. Felly, gobeithio dyma'r ffordd ymlaen i'r ardaloedd hynny nad oes ganddynt gyfleusterau addas.

Gobeithio, yn y dyfodol fel rydym wedi trafod, Yr Eglwys Newydd, os gallwn ni wella'r llyfrgell, gallwn gael toiledau neis ynddi wrth fynd ymlaen. Ond yn y cyfamser rwy'n meddwl y bydd y strategaeth hon yn gweithio, gobeithio.

<u>Cwestiwn:</u> *Y Cynghorydd Sirol Ali Ahmed*

Allwch chi nodi sut mae ailgylchu yng Nghaerdydd wedi gwella o ganlyniad i'r newidiadau y gwnaethoch yn 2015?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Derbyshire*

Yn 2015/16, cynigiodd y Strategaeth Gwastraff Ailgylchu ystod o weithgareddau ailgylchu i gynyddu’r gyfradd ailgylchu o 53% i 58% er mwyn cyflawni'r targedau statudol y'u pennwyd i ni.

Roedd y canlyniad o ganlyniad i nifer o fentrau llwyddiannus, y gwnes eu hamlinellu ynghynt mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Clark.
Nid un cynllun sydd wedi cyfrannu at y newid cyfan yn ein perfformiad ailgylchu, ond heb bob elfen, ni fyddai’r 58% wedi’i gyflawni.

Ymatebodd trigolion yn eithriadol dda i'r prif newidiadau i gasgliadau ymyl y ffordd ac, fel y perfformiwr gorau ymysg y dinasoedd craidd, dylid dathlu ein sefyllfa ailgylchu.

Cwestiwn atodol: *Y Cynghorydd Sirol Ali Ahmed*

Os nad yw’r rheiny wedi’u gwneud, beth fyddai’r goblygiad i’r Cyngor ac i drigolion Caerdydd?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Derbyshire*

Y gwir syml yw heb y newidiadau hynny, cyfrannodd y cyfyngiadau ar y bagiau a’r biniau llai 4% tuag at ein hailgylchu. Cyflawnon ni 58%. Heb hynny, bydden ni fod wedi cyflawni 54%. Byddai pob canran o bosibl wedi dod â dirwy o £400,000. Felly gallwch weld eich un y bydden ni o bosibl fod wedi cael dirwy o £1.6m eleni yn unig am fethu â bwrw’r targedau hynny.

Cwestiwn atodol: *Y Cynghorydd Sir Hudson*

Roeddwn ond am wybod i’r Cynghorydd ddweud bod trigolion yn eithaf hapus gyda’r biniau llai. Ac ni oeddwn yn meddwl eu bod nhw. Meddyliais y cafwyd sawl cwyn am hynny a thybed a fyddech chi’n cadarnhau hynny, os gwelwch.

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Derbyshire*

Mae’n cas gennyf eich siomi. Ni ddywedais ddim am hapusrwydd trigolion. Siaradais yn unig am ein targedau ailgylchu.

O ran a yw trigolion yn hapus neu beidio, ni ofynnais iddynt i gyd yn unigol. Roedd sawl trigolyn yn hapus. Roedd sawl trigolyn yn llai hapus. Roedd sawl trigolyn yn anhapus iawn ar yr adeg ac maent bellach yn ei chael yn iawn. Rhaid i chi gael ymateb cymysg.

Ni ddywedais ar unrhyw gam unrhyw beth am hapusrwydd neu anhapusrwydd trigolion gyda’r cynllun. Yr hyn ddywedais a’r hyn rwyf wedi bod yn ei ddweud yn y gorffennol oedd bod angen i ni ei wneud er mwyn bwrw ein targedau ailgylchu. Ac rwy’n credu bod y ffaith i ni fwrw ein targedau ailgylchu, ac i hynny gyfrannu’n fawr

tuag at ei wneud, yn gyfiawnhad yn ei hunain oherwydd mae wedi arbed llawer o arian i chi a fi fel drethdalwyr.

Hoffwn i orffen trwy ddweud diolch i bawb yn ystod y weinyddiaeth hon. Rwyf wedi mwynhau'n fawr gweithio gyda chi i gyd ac wedi mwynhau'r sgyrsiau rydym wedi'u cael yng nghyfarfod y Cyngor ac wedi mwynhau gweithio gyda chi fel Aelod Cabinet hefyd. Diolch.

Cwestiwn: *Y Cynghorydd Sir Parry*

Allech chi roi gwybod i ni faint o ffyrdd sydd wedi cael wyneb newydd ers 2012?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Patel*

Gallaf gadarnhau, rhwng blynyddoedd ariannol 2012/13 a 2016/17, fod 579 ffyrdd yn y ddinas sydd wedi cael arwynebau newydd.
Gallaf hefyd gadarnhau y caiff 72 ffordd wyneb newydd yn 2017/18, sy'n dod â'r cyfanswm i 651 o ffyrdd.

Cwestiwn atodol: *Y Cynghorydd Sir Parry*

Allech chi rhoi gwybod i'r siambr faint o ffyrdd gafodd wyneb newydd yn y ddinas rhwng 2008 a 2012?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Patel*

Rhwng blynyddoedd ariannol 2008/09 a 2011/12, cafodd 215 o ffyrdd yn y ddinas arwynebau newydd. Os cymharwch bedair blynedd, yr un cyfnod, roedden ni wedi rhoi wyneb newydd ar 527 o ffyrdd o gymharu â 215. Gwnaethon nhw hanner nifer y ffyrdd o'u cymharu â ni. Rydym wedi mwy na dyblu'r swm, hyd yn oed gyda thoriadau llymder. Rydym wedi dyblu nifer y ffyrdd sydd wedi cael arwynebau newydd oherwydd roedd y ffyrdd hynny'n flaenoriaeth i'n gweinyddiaeth ac i'r trigolion.

Cwestiwn atodol: *Y Cynghorydd Sir Boyle*

Nodaf y ffigurau y mae'r Cynghorydd Patel yn sôn amdanynt. Wrth gwrs, yn 2012, neilltuodd y weinyddiaeth flaenorol £44m ar gyfer projectau trafnidiaeth a rhoi arwynebau newydd ar ffyrdd yn ystod y pum mlynedd canlynol, rydych bellach wedi bod yn ei wario ar roi arwynebau newydd ar ffyrdd. Allech chi ddweud wrthym faint rydych wedi'i neilltuo ar gyfer y weinyddiaeth nesaf?

Ymateb: *Y Cynghorydd Sir Patel*

Rwy'n credu nad ydych chi'n gwbl cywir o ran y ffigur hwnnw oherwydd os edrychwch arno, yn 2012, gwelwch mai Llywodraeth Cymru – nid chi eich hunain, Llywodraeth Cymru, sy'n rhoi'r arian. Rwy'n credu ei bod bach yn gamarweiniol pan ddywedwch mai Cyngor Caerdydd sy'n ei roi. Ni rowch eich gweinyddiaeth arian.

Y ffaith amdani yw: yr hyn mae pobl am ei wybod yw faint o ffyrdd sy'n cael arwynebau newydd. Yn eich gweinyddiaeth: 214. Yn ein gweinyddiaeth: 527. Dyma'r ffeithiau.

167 : MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

168 : PENODI LLYWODRAETHWYR YSGOLION YR AWDURDOD LLEOL

PENDERFYNWYD: Yr argymhellir i'r Cyngor wneud y canlynol:

1. cymeradwyo'r penodiadau canlynol i lefydd gwag Llywodraethwyr Ysgol yr Awdurdod Lleol ar hyn o bryd: -

| **Ysgol** | **Ward** | **Dechrau Swydd Wag** | **Penodiad Arfaethedig** |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Baden Powell | Sblot | 17/09/2016 | Elizabeth Jane Henshaw |
| Ysgol Uwchradd Caerdydd | Cyncoed | 01/012017 | Julia Phillips-Lewis |
| Ysgol Gynradd Pontprennau | Pontprennau | 29/11/2016 | Philippa Green |
| Ysgol Gynradd Trelái | Caerau | 13/09/2016 | Alex Jackson |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Coed-y-Gof | Y Tyllgoed | 22/10/2015 | Delyth Murray-Lines |
| **Ysgol** | **Ward** | **Dechrau Swydd Wag** | **Penodiad Arfaethedig** |
| Ysgol Pen y Groes | Pentwyn | 28/09/2016 | Samsunear Ali |

2. cymeradwyo'r penodiadau canlynol i lefydd gwag Llywodraethwyr Ysgol yr Awdurdod Lleol yn y dyfodol:

| **Ysgol** | **Ward** | **Dechrau Swydd Wag** | **Penodiad Arfaethedig** |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Albany | Plasnewydd | 19/05/2017 | Melvin Card |
| Ysgol Gynradd Allensbank | Gabalfa | 28/06/2017 | Paul Davies |
| Ysgol Gynradd Llwynbedw | Y Mynydd Bychan | 25/05/2017 | Y Cyng Fenella Bowden |
| Ysgol Uwchradd Cathays | Gabalfa | 19/05/2017 | Jane Setchfield |
| Ysgol Uwchradd Fitzalan | Treganna | 24/04/2017 | Cerys Furlong |
| Ysgol Gynradd Gladstone | Cathays | 26/06/2017 | Jane Setchfield |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Glan-yr-Afon | Llanrhymni | 28/06/2017 | Chris Cooper |
| Ysgol Greenhill | Rhiwbeina | 25/05/2017 | Cllr Jayne Cowan |
| Ysgol Gwaelod y Garth | Pentyrch | 28/06/2017 | Rachel Garside |
| Ysgol Gynradd Llanisien Fach | Rhiwbeina | 28/06/2017 | David Greaves |
| Ysgol Tŷ Gwyn | Caerau | 26/04/2017<br>26/06/2017 | Y Cyng. Peter Bradbury<br>Pamela Bannister |
| Ysgol y Wern | Llanisien | 19/05/2017<br>05/04/2017 | Mike Landers<br>John Wilkins |

*(Daeth y cyfarfod i ben am 22.35pm).*

169 : CWESTIYNAU YSGRIFENEDIG

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR WALKER

Honnwyd yn ystod cyfnod holi craffu y gellir cyfiawnhau rhywfaint o wariant asiantaeth y Cyngor ar sail werth am arian a/neu angen gweithredol; os yw hyn yn gywir, beth yw'r cyfiawnhad hwn?

Pa adrannau sy’n rhan o wariannau asiantaeth ‘wedi’u cyfiawnhau’ hyn?

Ymateb

Defnyddir staff asiantaeth am amrywiaeth o resymau gan gynnwys:

- Llenwi swyddi pobl sydd ar Wyliau Blynyddol / Gwyliau Fflecsi;
- Llenwi Swyddi Gwag;
- Llenwi Swyddi Pobl sy'n Absennol oherwydd Salwch Hirdymor;
- Galw Tymhorol / Twf a Ragwelir mewn Galw;
- Gwaith Project;
- Llenwi Swyddi Pobl sy'n Absennol oherwydd Salwch Byrdymor; a
- Galw Byrdymor (na Ragwelir).

Mae hyn fel arfer i lenwi swyddi gwasanaethau rheng flaen hanfodol, cynnal lefelau staffio o bersbectif iechyd a diogelwch neu i roi cymorth ad-hoc neu dymhorol pan na fyddai cyflogi staff ar gyfer rolau llawn amser yn ymarferol neu’n cyflawni gwerth am arian i’r Cyngor.

Y prif gyfarwyddiaethau sy’n defnyddio asiantaethau i lenwi swyddi at y dibenion hyn yw:

Gweithrediadau’r Ddinas
Mae'r prif ardal mewn perthynas â gwaith tymhorol yn adran Barciau; er, mewn blynyddoedd blaenorol, roedd hefyd angen gweithiwyr i lenwi swyddi yn y

Gwasanaethau Hamdden a'r Gwasanaethau Chwarae ar gyfer gwasanaethau rheng flaen a chynnal cymarebau staffio.

Datblygu Economaidd (gan gynnwys Gwasanaethau Masnachol)
Mae hyn yn cynnwys angen sylweddol am staff asiantaeth i lenwi swyddi mewn gwasanaethau rheng flaen, gan gynnwys casgliadau gwastraff.

Gwasanaethau Cymdeithasol
Mae hyn yn bennaf i lenwi swyddi gwaith cymdeithasol gwag, yn benodol yn y Gwasanaethau Plant lle bo trosiant staff uchel wedi bod. Mae angen hyn er mwyn darparu gwasanaeth rheng flaen hanfodol a chynnal llwythi achos priodol.

Mae contract Gwasanaethau a Reolir gan Asiantaethau’r Cyngor yn cynrychioli gwerth am arian o ran y cyfraddau a negodir.

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR WALKER

Pa gyfran o gost cyflogres gyfan y Cyngor sy’n cael ei gwario ar staff asiantaeth?

Ymateb

Fel y cadarnhawyd ynghynt yn fy ymateb i'ch cwestiwn cyntaf, cynrychiolodd gwariant asiantaeth allanol gyda Comensura yn 2015/16 5.06% o’r arian a wariwyd gan y Cyngor ar gyflogeion yn uniongyrchol, ac eithrio gwariant mewn perthynas â chyllidebau ysgol wedi’u dirprwyo.

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR WALKER

Rhowch gymhariaeth o nifer y staff a gyflogwyd gan y Cyngor ym Mai 2012 a heddiw. Mae niferoedd llawn amser a rhan amser wedi’u nodi ar wahân.

Ymateb

Niferoedd staff ar 3 Mai 2012:

| | Ysgolion | Ddim mewn Ysgolion | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Llawn amser | 2685 | 4654 | 7339 |
| Rhan amser | 3893 | 3292 | 7185 |
| Cyfanswm= | 6578 | 7946 | 14524 |

Niferoedd staff ar 13 Mai 2017:

| | Ysgolion | Ddim mewn Ysgolion | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Llawn amser | 3021 | 3835 | 6856 |
| Rhan amser | 3949 | 2288 | 6237 |
| Cyfanswm= | 6970 | 6123 | 13093 |

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR WALKER

Heb nodi enwau, faint oedd y swm cyfan a daliwyd neu a addawyd gan y Cyngor i swyddogion sy’n gadael ar lefel cyfarwyddwr neu uwch ers Mai 2012?

Ymateb

Y swm cyfan a daliwyd neu a addawyd i swyddogion sy’n gadael ar lefel cyfarwyddwr neu uwch ers Mai 2012 yw £698,400. Mae hyn yn gyfateb i 8 swyddog ac yn cynnwys £434,491 o gostau pensiwn, y mae angen i'r Cyngor eu talu i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Nodir y ffigurau hyn yn Natganiad Cyfrifon Blynyddol y Cyngor yn ystod y cyfnod hwn.

Mae hyn hefyd yn adlewyrchu’r newidiadau wedi’u gwneud yn rhan o drefniadau uwch reoli wedi’u diwygio a gymeradwywyd gan y Cabinet yn Chwefror 2015, a leihaodd nifer y swyddi Haen 1 o 11 i 7 ac a alluogodd y Cyngor i arbed £650,000 y flwyddyn.

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR CLARK

Yn Ionawr 2017, rhoddwyd ymatebion i’r cwestiwn ysgrifenedig canlynol:

“Faint oedd y swm cyfan a wariwyd ar ymgynghorwyr allanol gan y Cyngor yn 2012/13, 2013/14, 2014/15, 2015/16? A ellir enwi'r ymgynghorydd, y dyddiad(au) a ddarparwyd y gwasanaeth a'r swm a roddwyd i bob ymgynghorydd ym mhob blwyddyn?”

Faint o ddiwrnodau o waith a wnaethpwyd gan yr ymgynghorwyr ym mhob blwyddyn a pha gyfradd ariannol dyddiol a daliwyd iddynt?

Ymateb

Mewn ymateb i’ch cwestiwn dilynol am y wybodaeth a roddwyd yn Ionawr 2017, gallaf gadarnhau nad yw’n bosibl nac yn ddichonadwy i ddarparu dadansoddiad manwl o nifer y diwrnodau a weithiwyd gan ymgynghorwyr allanol o'r cofnodion oedd ar gael. Mae hyn o ganlyniad yn bennaf i swm helaeth yr amser a’r adnoddau oedd eu hangen i ddelio gyda swm y trafodion ac anawsterau cysylltiedig gyda nodi a chadarnhau gwybodaeth wreiddiol.

AMGYLCHEDD (Y CYNGHORYDD BOB DERBYSHIRE)
CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR CLARK

Beth oedd cyfanswm y tunelli o wastraff wedi'i halogi a gafodd ei gyflwyno er mwyn ei ailgylchu yn 2011/12?

Ymateb

Y swm o ddeunyddiau na ellir eu hailgylchu o fagiau gwyrdd, a dderbyniwyd gan Gyfleuster Adennill Deunyddiau (CAD) Caerdydd yn 2011/12, oedd 2,216 tunnell o gyfanswm o 27,703 tunnell a dderbyniwyd (8%).

Fodd bynnag, dylid nodi bod hyn cyn dymchweliad y farchnad yn fyd-eang ar ddechrau 2012 a dileu deunyddiau plastig gradd isel penodol o'r farchnad ailgylchu fyd-eang. Roedd hefyd cyn symud at gasglu gwastraff gweddilliol bob yn ail wythnos. Mae ein CAD yn dal i fod o fewn normau diwydiant (ar gyfer 2016), sy'n gallu amrywio rhwng 12% ac 20%. Mae gan ailgylchu gwastraff bwyd ar wahân lefelau isel iawn o halogi o lai na 3%.

Eithrir unrhyw halogi o berfformiad ailgylchu cyn i Lywodraeth Cymru gwblhau'r ffigurau perfformiad (h.y. ni chynhwysir halogi yn allgynnyrch ailgylchu'r flwyddyn).

ARWEINYDD - DATBLYGU ECONOMAIDD A PHARTNERIAETHAU
(Y CYNGHORYDD PHIL BALE)
CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR BRIDGES

Pa drafodaethau mae Cyngor Caerdydd wedi'u cael – yn fewnol ac yn allanol – am ddyfodol hen safle'r tafarn Grape & Olive ar gyffordd Heol Wedal / Allensbank?

Gan ystyried bod y Cyngor yn berchen ar y rhydd-ddaliad i'r tir, pa ymrwymiad gaiff ei roi i ymgysylltu â thrigolion lleol am unrhyw gynlluniau i ailddatblygu'r safle?

Ymateb

Prydlesodd y Cyngor yr eiddo hwn i Whitbread Plc am 125 o flynyddoedd gydag effaith o 1 Gorffennaf 1994. Ar hyn o bryd mae'r brydles hon wedi'i haseinio i Brains Brewery a, felly, nid yw'r eiddo dan reolaeth y Cyngor.

SGILIAU, DIOGELWCH AC YMGYSYLLTU (Y CYNGHORYDD DAN DE'ATH)
CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR CLARK

Yn Ionawr 2017 gofynnwyd y cwestiwn ysgrifenedig canlynol:

"Sut caiff landlordiaid eu monitro ar p'un ai a ydynt yn dweud wrth denantiaid am drefniadau cyflwyno gwastraff yn gywir a faint o'r landlordiaid hyn sydd wedi derbyn dirwy am beidio â dweud wrth denantiaid am y trefniadau o ran cyflwyno gwastraff yn gywir?"

Allech chi gadarnhau a yw unrhyw landlordiaid wedi derbyn dirwy neu'u herlyn am beidio â dweud wrth denantiaid am drefniadau cyflwyno gwastraff yn gywir neu am beidio â chydymffurfio â'u cyfrifoldebau gwastraff dan y cynllun trwyddedu ychwanegol?

Ymateb

Mewn ymateb i'ch Cwestiwn Ysgrifenedig blaenorol ar y pwnc hwn yn Ionawr 2017, dywedwyd wrthych fod angen i'r holl ddeiliaid trwydded roi gwybod i'w tenantiaid o drefniadau cyflwyno a gwaredu gwastraff yn gywir ac y nodir y trefniadau hyn yn amodau'r drwydded. Gallai landlordiaid hefyd gael datganiad wedi'i lofnodi gan denantiaid y byddant yn glynu at y trefniadau hynny. Fodd bynnag, dylwn ei wneud yn glir, unwaith eto, fod monitro cydymffurfiaeth â'r gofyniad hwn y tu hwnt i gwmpas

y cynllun cyfredol. O ganlyniad, hyd yn hyn, nid yw unrhyw landlordiaid wedi’u herlyn am fethu â chydymffurfio â’r gofyniad penodol hwn.

Mae’n bwysig cydnabod nad yw’r trefniadau hyn, wrth gwrs, yn gweithredu ar wahân ac mae Tîm Addysg a Gorfodi Gwastraff y Cyngor hefyd yn gweithredu yn yr ardal i fynd i’r afael â phryderon sy’n ymwneud â’r strydlun. Mae gwaith addysg a gorfodi helaeth yn cael ei wneud yn Cathays, gan gynnwys cnocio ar ddrysau i siarad â thenantiaid a dosbarthu negeseuon trwy’r Fforwm Landlordiaid am gyflwyno gwastraff yn gywir.

Bydd swyddogion gorfodi hefyd yn gweithio ar y cyd gyda’r tîm trwyddedau tai amlfeddiannaeth ac os byddant yn gweld tystiolaeth fod trigolion sy’n denantiaid wedi torri’n ailadroddus, yna cânt eu hadrodd i’r tîm trwyddedu iddo herio cyfrifoldebau’r landlord ac amodau’r drwydded.

TRAFNIDIAETH, CYNLLUNIO A CHYNALIADWYEDD
(Y CYNGHORYDD RAMESH PATEL)
CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR BRIDGES

Ym mis Tachwedd, wrth ymateb i gwestiynau'r Cyng. Joe Boyle am grudio Taith Taf yn ystod tywydd rhewllyd, dywedodd y Cyng. Patel: *“...rydym yn ymchwilio i ddefnyddio cerbydau llai, megis certiau neu feiciau quad er mwyn gallu rhoi’r deunydd i lawr ar y Taith Taf”.* Beth digwyddodd o ganlyniad i’r ymchwiliadau hyn?

Ymateb

Mae adolygiad wedi dechrau i gael gwybod y posibilrwydd o gridio Taith Taf yn y dyfodol. Mae ymchwiliad i alw, manteision, cyfyngiadau, meincnodi, addasrwydd cerbydau, dewis deunyddiau, methodoleg cyffredinol a'r angen am adnoddau bellach ar y gweill.

Gan na fyddai wedi bod yn ymarferol i gynnwys y gwaith o gridio Taith Taf yng Ngwasanaeth Gaeaf 2016/17, sydd eisoes wedi’i ddylunio, ei sefydlu ac y mae adnoddau eisoes ar gael iddo, credwyd ei bod yn fwy addas i wneud a cwblhau adolygiad yn barod ar gyfer tymor 2017/18. Dadansoddir y tymor cyfredol i helpu i ddeall yn llawn gofynion y cais ychwanegol hwn wrth ei alinio â'r gwasanaeth cyfredol. Disgwylir i’r adolygiad gael ei gwblhau erbyn diwedd Mai 2017.

Hefyd, gallaf gadarnhau bod swyddogion yn gwneud adolygiad cynhwysfawr o ansawdd seilwaith beicio Taith Taf ac mae gwaith i’w uwchraddio’n cael ei gynllunio yn ystod y tair blynedd nesaf.

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR CLARK

Faint oedd cost adeiladu’r palmant ymwthiol newydd wrth gyffordd Llantrisant Street a Maindy Road? Deallaf y talwyd am hyn trwy gytundeb adran 106.

Ymateb

Roedd y gwaith ffordd ar Maindy Road, hyd at a chan gynnwys ailfodelu'r gyffordd fawr gyda Llantrisant Road, yn amodol ar gytundeb wedi'i wneud dan Adran 278 Deddf Priffyrdd 1980 a ariannwyd yn llwyr gan Brifysgol Caerdydd ar gefn y gwaith parhaol o ddatblygu Campws Maindy Road.

Gan y cwblhawyd y cynllun trwy Adran 278 gan drydydd parti (nid y Cyngor), nid oes gennym unrhyw gofnodion o union gost y cynllun.

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR CLARK

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae llawer o Tewkesbury Street, Malefant Street, Tewkesbury Place, Monthermer Road, Dogfield Street a Robert Street yn nhroedffordd Cathays wedi'i drin gydag arwyneb meicro-asffalt. Beth oedd cost gyfan trin y strydoedd hyn?

Ymateb

Mae'r tabl isod yn rhoi cost trin arwyneb pob stryd y gofynnwyd amdani yn Cathaus a chost gyfan y cynlluniau hyn:

| Enw'r Stryd | Cost (£) |
|---|---:|
| Tewkesbury Street | 6,582 |
| Malefant Street | 9,340 |
| Tewkesbury Place | 2,524 |
| Monthermer Road (2013/14) | 7,907 |
| Dogfield Street | 6,083 |
| Robert Street | 3,320 |
| Cost Gyfan = | £35,756 |

Nodwch y cafodd Monthermer Road ei gwblhau tair blynedd yn ôl yn 2013/14, ond wedi'i gynnwys uchod gan y gofynnwyd yn arbennig amdano.